

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071




9 771753 107001 >

Rhifyn 370 - 60c
Chwefror 2019

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llanybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Haelioni
C.Ff.I.
Llanllwni



Tudalen 26

Cymwynaswr
yn Gymeriad
Bro



Tudalen 18

Dwy Chwaer
yn Chwarae
i'r Scarlets



Tudalen 15

Murlun newydd Pwyllgor Gŵyl Dewi

Mwy o luniau
ar dudalen 26.



Cafodd disgyblion o ysgolion
cynradd y cylch gyfle
arbennig i weithio gyda'r
arlunydd Rhiannon
Roberts i greu murlun o
Groeso ac i ddathlu
Cymreictod ar gyfer
tref Llanbed.
Bydd y murlun
yn ymddangos
cyn hir ar wal
siop W D
Lewis a'i
fab yn
y dref.

Bugail newydd ein Bro



Sefydlu'r Parchedig Ddr D. Densil Morgan yn weinidog ar chwech o eglwysi'r cylch - Aberduar Llanybydder; Bethel Silian; Brynhafod Gors-goch; Caersalem Parc-y-rhos; Noddfa Llanbedr Pont Steffan; a Seion Cwrtnewydd. Adroddiad llawn ar dudalen 8.

Ydych chi wedi ymweld â gwefan Clonc360?



Uchafbwyntiau'r mis ar **clonc360.cymru**

● BRON DEUGAIN MIL AR OFFER CHWARAE NEWYDD YN LLEOL

Rhaid llongyfarch aelodau Cyngor Tref Llanbed a Phwyllgor Pentref Cwmann am fuddsoddi bron i ddeugain mil o bunnoedd ar gyfleusterau chwarae i blant yn yr ardal.

Mae'r cornel chwarae ger Canolfan Cymuned Cwmann wedi ei hadnewyddu a'i hadeiladu ac yn barod i'w defnyddio, ac mae'r gwaith ar adeiladu offer chwarae newydd ym Mharc yr Orsedd Llambd wedi dechrau.

Dyweddodd y Cyng. Ronnie Roberts ar ran Pwyllgor Pentref Cwmann, "Mae'r lle chwarae newydd yn barod i'w ddefnyddio yn awr. Mae wedi costio £25,740 i'w adeiladu."



● HAMDDEN LLAMBED YN EICH HELPU I WAREDU EFFAITH Y TWRCI!



Gyda'r twrci, 'brandy' a mins peis nawr ond atgof ac addunedau blwyddyn newydd pawb yn ei anterth dewch i ymuno â ni yng Nghanolfan Hamdden Llambd i gadw'n heini?

Mae gennym amryw o ddosbarthiadau ffitrwydd ar gael, ystafell ffitrwydd, pŵll nofio ynghyd â neuadd chwaraeon a chae aml bwrpas.

I ddarllen rhagor ac i weld amserlen y dosbarthiadau, ewch i clonc360.cymru

● DROS 600 STORI AR CLONC360

Ar drothwy blwyddyn newydd mae Papur Bro Clonc a Chwmni Golwg yn gallu dathlu bod dros 600 stori wedi eu cyhoeddi ar y wefan hon.

Sefydlwyd y wefan ym mis Ebrill 2015 fel arbrawf. Gydag arbenigedd technolegol Cwmni Golwg ac ysbryd cymunedol y bobl leol, bu'r fenter yn llwyddiant ysgubol.

Mae'r straeon wedi amrywio o newyddion caled fel llofruddiaeth, llifogydd a damwain angheuol - a'r cyfan yn yr iaith Gymraeg, i adroddiadau am ddigwyddiadau amrywiol fel eisteddfodau, carnifalau, rasy, sioeau a chyngherddau. Popeth sy'n effeithio ar y gymuned ac sy'n tynnu'r gymuned honno at ei gilydd.



**Ffili aros tan y papur nesa'?
- clonc360.cymru**

**Darllenwch
Cyfrannwch
Mwynhewch**



www.facebook.com/clonc360



[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360)

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Clonc360



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@yr_egin](https://twitter.com/yr_egin)
Ionawr 21

Joio heno yng nghwmni
[@cffillanwenog](https://twitter.com/cffillanwenog)
[@CFfIPontsian](https://twitter.com/CFfIPontsian)
[@cffiCaerwedros](https://twitter.com/cffiCaerwedros)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@RhiannonTanlan](https://twitter.com/RhiannonTanlan)
Ionawr 21

Trist iawn. Chwalu
Ysgol Ffynnonbedr
[#hanes](https://twitter.com/hanes) [#atgofion](https://twitter.com/atgofion)
[#yraddysggorau](https://twitter.com/yraddysggorau)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@THJ1961](https://twitter.com/THJ1961)
Ionawr 13

Eglwys fach ei maint ond
mawr ei chroeso. Wedi
mwynhau arwain yr oedfa
ym Methel, Drefach
b'nawn heddiw. Am ganu
emynau ag arddeliad!
Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@BedyddGogTeifi](https://twitter.com/BedyddGogTeifi)
Ionawr 12

Paratoadau at y te
rhwng oedfaon sefydlu'r
Parchedig Densil Morgan.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@Craffwr](https://twitter.com/Craffwr)
Rhagfyr 15

Buddugoliaeth heddiw i
Dîm Cyntaf
[@LampeterTownRFC](https://twitter.com/LampeterTownRFC) 35
[@NDSRugby](https://twitter.com/NDSRugby) 6.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd
[@Clonc360](https://twitter.com/Clonc360) neges
[@HeiddwenT](https://twitter.com/HeiddwenT)
Rhagfyr 7

Diolch i bawb ddaeth i
lansiad Esgym neithiwr.
Bu'n nosweth i'w chofio
[@YLolfa](https://twitter.com/YLolfa)

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Chwefror Sian Jones, Rhandir, Cae Ram Cwmann 421443
Mawrth Lois Williams, Crynffryn, Cwmann 422700
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tîm Golygyddol Elaine Davies, Gwyneth Davies, Sian Jones, Marian Morgan, Delyth Morgans Phillips, Siwan Richards a Lois Williams.

Dylunydd y mis Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Sian Roberts-Jones, Croesor 423313
Cwmsychpant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambod Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Eirlys Owen, Cwmderi 481041
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambod 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Y mae pawb sy'n ymwneud â Phapur Bro Clonc yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.
- Gofynnir i bawb ddatgan eu bod wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfôn pob adroddiad i Bapur Bro Clonc / gwefan Clonc a gwefan Clonc360 a wedi sicrhau caniatâd rhiant neu warcheidwad pob plentyn dan 13 oed.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn Clonc.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Siop J H Roberts a'i feibion, Y Stryd Fawr, Llambod.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur y ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur. Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50. Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Gwersi hanes

Rydwy i'n ysgrifennu'r pwt hwn ar 27 Ionawr, Diwrnod Cofio'r Holocost. Nawr, dwi ddim yn hanesydd nac yn awdurdod ar hanes Rhyfeloedd Byd yr Ugeinfed Ganrif. Ond rydw i, fel pawb arall am wn i, yn gwybod rhywbeth am rhialtwch a chasineb ac anghyfiawnder Hitler a'i debyg. Mae'r Ail Ryfel Byd yn dal yn fyw yn y cof, ac efallai bod nifer ohonoch chi ddarllenwyr Clonc wedi profi effeithiau'r rhyfel - o bell neu agos, yn unigol neu fel teulu. Dyna pam felly rwy'n ei chael hi'n anodd deall sut bod l o bob 20, yn ôl ymchwil diweddar, yn gwadu bod ffasiwn beth â'r holocost erioed wedi digwydd. Wn i ddim sut all rhywun ddiystyru lladd ffaidd a dianghenraid oddeutu chwe miliwn o ddynion, gwragedd a phlant, dim ond oherwydd eu tras neu'u hil. Ai dyma'r gwerth mae rhai yn ei roi ar fywyd eraill - gwadu eu bod nhw erioed wedi byw?

Rydwy i hefyd, wrth gwrs, yn paratoi'r llith yma yng nghanol trafodaethau Brexit. Dyna i chi air yw hwnnw: Brexit - mae e bron fel rheg. Ac allwn ni ddim osgoi'r hen air salw, mae e yn y newyddion yn ddyddiol. Allwn ni ddim osgoi beth ddaw o'r trafodaethau chwaith, wrth gwrs - fe fydd Brexit yn effeithio ar ein bywydau ac ar fywydau ein plant. Digon posib y bydd newid eto yn y trafod fory a thrennydd, ac erbyn y daw'r rhifyn yma o Clonc o'r wasg, dyn â wŷr ble fyddwn ni arni!

Go brin bod rhywbeth mor eithafol â holocost yr Ugeinfed Ganrif yn mynd i ddigwydd eto - wel, dyna'r gobaith, yn bendant. Ond mae arweinwyr gwledydd yn dal i gwmpo mas, yn dal i drachwantu, yn dal i feirniadu pobol o wledydd eraill. Y gwir amdani, ac fel mae hanes yn ein dysgu ni, allwn ni ddim byw fel pobol mewn heddwch â'n gilydd. Mor drist yw hynny.

Beth bynnag yw eich bwriadau, eich gobeithion a'ch breuddwydion am 2019, gobeithio y bydd hi'n flwyddyn ddirwystr, ddirwgnach i ni gyd. Ymlaen â ni!

Cloncen

Ble aeth pawb?



Llun a ddaeth drwy law Twynog Davies o'r ddau frawd Jim ac Emrys Williams Aberdaudwr. Bu Emrys (yr ail o'r chwith) farw 20 mlynedd yn ôl ar 15 Ionawr 1999. Coffa da am ddau o gymeriadau anwylaf yr ardal yn trin ychydig o'r tir serth o gwmpas y ffarm.

Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

CYMRAG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

GLYN PHILLIPS

Saer Coed ac Asiedydd
Gwasanaeth Proffesiynol

Ffôn: 01570 470176
07775 694243

iglynphillips@tiscali.co.uk
www.glynphillips.com

Plymio a Gwresogi
DANIEL DOUGHTY
Plumbing & Heating Services

Gas/LPG & Oil Services

Renewables • Installation
Maintenance • Breakdowns
Boiler Servicing • Sprinklers

07969 289679
d.doughtyplumbing@gmail.com



LKitchens Ltd

CELFY CEGIN A 'STAFELL
WELY WEDI'U FFITIO,
ATEGOLION CEGIN,
CYFARPAR TRYDAN,
TEILS WAL A LLAWR

SGWÂR Y FARCHNAD,
LLANYBYDDER

01570 480257

www.lifestylekitchensandbedrooms.co.uk

E. JONES
PLUMBING & HEATING LTD

01570 480 108

07811 701 857

office@ejonesplumbingandheatingltd.co.uk



CHWEFROR

- 8 Cymanfa Ganu Cwmffradach Cwmni Theatr Troed-y-rhiw yng Nghapel Llwynrhydowen 7.30yh. Elw at Mind Cymru.
- 8 Dangosiad Sgrin Sinema o gynhyrchiad Milwr yn y Meddwl gan Heiddwen Tomos yn Theatr Felinfach 7.30y.h.
- 11 Merched y Wawr Llanbed - Arlunio gydag Aerwen yng nghwmni dysgwyr y Gymraeg yn lleol.
- 12 Lansiad 'Myfyrdodau Pysgotwr', cyfrol o farddoniaeth y diweddar Hybarch J Sam Jones yn Ystafell yr Eglwys, Llanllwni am 7.30 yh. Croeso cynnes i bawb.
- 15 Cyngerdd Sefydliad Prydeinig y Galon gyda Chôr Cardi-Gân ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant Llanbed.
- 15 Rasys Parlwr yn Y Talardd, Llanllwni am 8.00yh. Elw tuag at y Cylch Meithrin.
- 16 Gŵyl Gwrw a Seidr Llanbed ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant Llanbed o 12.00y.p. tan 11.00y.h.
- 19 Cerdd Llambd yn cyflwyno Isatah a Braimah Kanneh-Mason yn Neuadd Ysgol Bro Pedr am 7.30y.h.
- 23 Bore Coffi, Clonc, Raffl a Stondin Cacennau Apêl Eisteddfod 2020 yn Neuadd Llanfair Clydogau, 11yb-1yp.
- 25 Cyfarfod Cyhoeddus Cronfa leol Llanbed yn Llain y Castell am 7.00y.h.
- 25 – 28 Cystadleuaeth Hanner Awr o Adloniant C.Ff.I. Ceredigion yn Theatr Felinfach.
- 25 – 28 Cystadleuaeth Hanner Awr o Adloniant C.Ff.I. Sir Gâr.

MAWRTH

- 1 Cystadleuaeth Hanner Awr o Adloniant C.Ff.I. Ceredigion yn Theatr Felinfach.
- 1 Cystadleuaeth Hanner Awr o Adloniant C.Ff.I. Sir Gâr.
- 2 Cerdd Llambd yn cyflwyno Simon Lane yn neuadd Ysgol Bro Pedr am 7:30y.h.
- 4 Gorymdaith Gŵyl Dewi - cychwyn o Ysgol Hŷn Bro Pedr am 12.45. Croeso i bawb.
- 5 – 8 Cynhyrchiad ac Arddangosfa Anweledig gan y Frân Wen yng Nghanolfan Celfyddydau Aberystwyth 7.30y.h.
- 6 Merched y Wawr Llambd - DALIER SYLW mai Dydd Mercher byddwn yn dathlu Gŵyl Dewi yn y Pantri am 4.30.
- 7 Gŵyl Offerynnol yr Urdd Rhanbarth Ceredigion yn Theatr Felinfach.
- 9-10 Gwledd Adloniant C.Ff.I. Cymru.
- 11 Cyngerdd Hanner Awr o Adloniant C.Ff.I. Llanwenog yn Ysgol Dyffryn Cledlyn, Drefach am 7:30y.h.
- 14 Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambd yn Ysgol Bro Pedr.
- 17 Cymanfa Ganu Swyddogion C.Ff.I. Ceredigion.
- 19 Gŵyl Ddawns yr Urdd Rhanbarth Ceredigion yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul.
- 22 Noson Gymreig yn Ysgol Dyffryn Cledlyn, Drefach gydag artistiaid lleol yn diddanu. Elw tuag at Gronfa Leol Llanwenog a Llanwnnen Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020. Mynediad £5.
- 22 Cwis a lluniaeth ysgafn yn Llain y Castell am 7.00y.h. Elw Gronfa Leol Llanbed Eisteddfod 2020.
- 23 Noson gyda Bois y Gilfach yng Nghlwb Bowlio, Llambd. Elw tuag at brynu diffibriliwr i'w roi y tu allan i'r Clwb Bowlio at ddefnydd pawb yn y gymuned.
- 26 Ysgol Feithrin Llanybydder yn cynnal noson bingo yn y Clwb Rygbi am 8.00 o'r gloch.
- 29 Eisteddfod Uwchradd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.
- 30 Eisteddfod Cynradd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Bont.

EBRILL

- 2 Eisteddfod Celf a Chrefft Rhanbarth Ceredigion yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog.
- 8 Merched y Wawr Llanbed yn ymweld â chanolfan LAS yng nghwmni Tina Morris.
- 12 Pwyllgor y Pentref yn cynnal noson "Queen selection ball" yng Ngwesty Crosshands am 6.00 o'r gloch.
- 14 Rihysal yr Undodiaid - Plant ac Ieuencid am 4.00 a'r Oedolion am 5.00y.h.
- 20 Bois y Gilfach yn Neuadd y Drindod Dewi Sant, Llambd gyda Rhys Meirion, Côr Llanddarog, Ffion Dafis a Dr Elin Jones, Oncolegydd a Elin Jones AC yn Llywydd. Elw tuag at Uned newydd Chemotherapi Bronglais.
- 21 Rihysal yr Undodiaid yng Nghapel Brondeifi. Plant ac Ieuencid am 4.00 a'r Oedolion am 5.00y.h.
- 24 Eisteddfod Gadeiriol Capel-y-Groes, Llanwnnen.
- 26 David Cooper yn traddodi'r ddarlith 'My life as a Cold War Warrior' - ei brofiadau personol o fyw a gweithio yn yr Almaen yn y 60au yn Eglwys Santes Gwenog, Llanwenog am 7.00y.h. Tocynnau £10.
- 28 Cymanfa Ganu yr Undodiaid yng Nghapel Brondeifi. Plant ac Ieuencid am 2.00 a'r Oedolion am 5.30y.h.

MAI

- 4 Eisteddfod Gadeiriol Capel-y-Fadfa, Talgarreg.
- 5 Te Prynhawn yng Nghanolfan Bentref Cwmann i godi arian at daith Llion Herbert i Borneo. Tocynnau yn £15 ar gael drwy ffonio 421392.
- 6 Ras Dyffryn Cledlyn.
- 11 Rali C.Ff.I. Sir Gâr yn Nantyci, Caerfyrddin.
- 19 Ras Fynydd Sarn Helen.

MEHEFIN

- 1 Rali C.Ff.I. Ceredigion ar fferm Ynysforan, Lledrod.
- 28 "Pnawn Pancws" yn Eglwys Santes Gwenog Llanwenog rhwng 2y.p a 7 y.h. Clywed hanes yr Eglwys a chyfle i ddringo i gopa Tŵr yr Eglwys a gweld yr olygfa. Cyfran o'r elw yn mynd tuag at Eisteddfod 2020.

GORFFENNAF

- 6 Sioe Amaethyddol Llanbed.

AWST

- 24 – 26 Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen yn Ysgol Bro Pedr, Llambd.

MEDI

- 14 Ffair Ram ar gae pentref Cwmann.
- 28 Cyngerdd Dathlu Côr Cardi-Gân yn 20 oed yn Theatr Felinfach. Mwy o fanylion i ddod.
- 29 'Pop up Pub' Neuadd yr Hafod, Gorsgoch. Gêm Rygbi Cymru. Elw tuag at Gronfa Leol Eisteddfod 2020.

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion

Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,

Masnachwyr coed, ffensio a nwyddau adeiladu o bob math. Tanwydd gan gynnwys nwy FloGas a glo caled a meddal o'r ansawdd gorau

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

ANDREW JAMES

PLYMWR PROFIADOL



Registered Business

Peiriannydd Gwres Canolog Trwsio, gwasanaethu a gosod boeler

Ffôn: 07811052757

Ebost: dandrewj@icloud.com

Gwersi TELYN a Gwersi PIANO preifat



Am wybodaeth bellach cysylltwch â

Georgina Cornock-Evans
07967 648336

Gwasanaethu, Cynnal a Chadw
- Boileri a Ffynau Olew
- Pymphiau Gwres o Ffynonhellau'r ddaear a'r awyr
- Paneli Thermal Solar
- Silindrau heb awyrellau



01559 370997 / 07966 592183
aled.evans1@btinternet.com



£830 tuag at Bwyllgor Llanybydder a Llanbed o Ymchwil Cancr Cymru, sef arian a godwyd mewn cyngerdd yn Eglwys Sant Iago Cwmann gyda Chôr Bro'r Mwyn. Yn y llun mae Danny Davies, Warden; Susan Evans, Ysgrifenyddes y pwyllgor; Y Cyng Ieuan Davies, Cadeirydd y pwyllgor; Y Parch Ddr William Strange; Rosa Lloyd, Ysgrifenyddes yr Eglwys a Graham Evans, Warden.



Cafodd Jennie Bracher, ysgrifenyddes ac Ann Davies, trysorydd cangen Llanybydder a Llanbed o Sefydliad y Galon wahoddiad i Dŷ'r Arglwyddi yn Llundain yn ddiweddar am eu gwaith brwdfrydig dros yr elusen am flynyddoedd. Yn y llun mae'r ddwy y naill ochr i'r Dduges Sarah Ferguson, llysgenhades y noson.



Carwyn Lewis, Cwmann ar noson eillio ei farf yng Nghlwb Rygbi Llanbed er mwyn codi arian tuag at elusen CGD Society ar ôl colli ffrind i'r cyflwr. Codwyd £1,140, a hoffai ddiolch i bawb am ei gefnogi.

Corisma

Blwyddyn newydd dda. Bu merched y côr yn mwynhau dathliadau'r Nadolig mewn noson o hwyl yn Nhyglyn Aeron 'nôl ym mis Rhagfyr, gyda phryd o fwyd blasus a chanwr oedd yn dynwared Freddie Mercury yn ein diddanu! Roedd hi'n bryd cael hoe fach wedyn cyn ailgydio yn y canu a'r ymarferion.

Yn ystod mis Ionawr cawsom y pleser o gymryd rhan mewn dau ddigwyddiad arbennig. Ar y 12fed o'r mis bu'r côr yn canu yng ngwasanaeth sefydlu Y Parch Densil Morgan yng nghapel Noddfa, Llanbed. Roedd hi'n braf cael bod yn rhan o'r achlysur – diolch yn fawr. Bythefnos ar ôl hyn buom yn canu yng nghyngerdd "Llwybrau Robat Arwyn", yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul, i godi arian at gronfa Eisteddfod Ceredigion 2020. Anrhydedd mawr oedd cael canu un o'r llu o ganeuon a gyfansoddwyd gan Robat Arwyn, a hynny o flaen y dyn ei hun, ac roedd cyd-ganu "Anfonaf Angel" gyda'r holl artistiaid eraill, â Robat Arwyn yn arwain, yn goron ar noson gofiadwy iawn!

Cofiwch ein bod yn barod bob amser i groesawu aelodau newydd, ymunwch â ni bob yn ail nos Lun yng Nghanolfan Cwmann.

Enillwyr Misol Clwb 125

Neuadd Sant Iago Mis Rhagfyr 2018: 1. Ruth Jones, Heol-y-Maes, Pencarreg, 20. 2. Carol Doughty, Caris, Cwmann, 15. 3. Steven Palmer, Gables, Cwmann, 124. 4. Ann Jones, Arfryn, Cwmann, 63. 5. Dini Hardy, Cwrtderi, Cwmann, 9. 6. Jennie Bracher, Glyndu, Cwmann, 88. 7. Eirian Jones, Teify-Forge, Cwmann, 61. Mis Ionawr 2019: 1. Mr John Massey, Gellideg, Maesllan, Llanbed, 19. 2. Glesni Thomas, 1, Heol-Hathren, Cwmann, 57. 3. Lena Williams, 39, Heol-Hathren, Cwmann, 79. 4. Gwynfor Lewis, Bronwydd, Heol y Bont, Llanbed, 105. 5. Mattie Williams, Ddeunant-Hall, Cwmann, 70. 6. Nerys Beaumont, Trefin, Cwmann, 27. 7. Wendy Mason, 35, Heol-Hathren, Cwmann, 103.

Enillwyr Misol Clwb 225

Pwyllgor Pentref Cwmann Mis Rhagfyr 2018: 1. I. Jenkins, Pennant, Rhydcymerau, 118. 2. Helen Davies, Gwel-y-Cwm, Llanbed, 57. 3. Glenys Morgans, Rhydowen, Cwmann, 46. 4. Mr & Mrs, D. J. Davies, Wernfraith, Cwmann, 232. 5. Mrs. E. Lewis, Tanlan, Cwmann, 154. 6. Danny & Ann Davies, Brynteify, Cwmann, 80. 7. Emyr Jones, Teify Forge, Cwmann, 147. Mis Ionawr 2019: 1. Mrs R Harries, Castle-View, Llanllwni, 203. 2. Mr & Mrs A Roberts, Caeronnen, Cwmann, 26. 3. Mr & Mrs W Edwards, Ddeunant, Cwmann, 173. 4. Alan Morgan, Haulfryn, Cwmann, 19. 5. Aneurin Jones, Hathren, Heol-y-Bont, Llanbed, 124. 6. Mrs June James, Maesteg, Cwmann, 75. 7. Jennie & Michael, Brynbedw, Cwmann, 66.



Dymuna Christina, Amanda a David ddiolch i bawb am eu cyfraniadau hael tuag at Ambiwylans Awyr Cymru pan godwyd £2,300.00 yn dilyn eu hymdrechion yn Hanner Marathon Caerdydd ym mis Hydref.

Sefydliad y Merched

Croesawyd pawb i gyfarfod mis Rhagfyr yn y Ganolfan gan ein Llywydd, Elma. Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Helena, June, Avril a Gwen. Aeth Elma ymlaen i groesawu ein gwraig wadd sef Mrs Meinir Evans, neu fel mae pawb yn ei hadnabod Meinir Ffosyffin. Cafodd ei swydd gyntaf yn Ysgol y Dderi. Ar ôl blwyddyn i ffwrdd, cafodd swydd yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth, ond ar hyn o bryd mae'n dysgu yn Aberaeron a Dihewyd. Dechreuodd drwy goginio 'wrap' caws a chilli a spring onion, a chawsom i gyd ei flas - roedd yn blasu'n hyfryd dros ben. Aeth ymlaen wedyn i ddangos sut oedd gwneud 'torch' ar gyfer y Nadolig. Gwnaeth ddwy, un i hongian ar y drws, ac un arall i'w gosod yn fflat. Diolchodd Gwyneth iddi am noson ysgafn a phawb yn ymlacio wrth ei gweld yn gweithio mor rhwydd. Enillwyd y raffl gan Tegwen. Mary enillodd y 'dorch' a roddwyd gan Meinir. Cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei pharatoi gan Gwyneth, Elma a Joyce. I ddilyn cafwyd cyfarfod busnes. Darllenwyd y llythyr misol. Croesawyd ni i gyfarfod cyntaf

2019 gan ein llywydd Elma. Dymunodd Blwyddyn newydd dda i bawb gan obeithio bod pawb wedi cael Nadolig wrth eu bodd. Croesawodd Elma Gwawr Davies o Aberaeron atom. Athrawes oedd Gwawr yn Ysgol Brynsaron am 22 o flynyddoedd ond mae wedi ymddeol ers rhai blynnyddoedd. Ers dwy flynedd mae wedi dechrau ei busnes ei hunan yn ei chartref sef 'Brocmor'. Dywedodd ei bod yn mynd i gerdded y traeth yn Aberaeron er mwyn cael gafael mewn unrhyw fath o bren er mwyn ei ailgylchu. Dangosodd i ni sut oedd gwneud coeden. Roedd ganddi arddangosfa dda iawn o'i gwaith. Byddai'n mynychu Ffeiriaid Nadolig yr ardal ac yn gwerthu ei nwyddau mewn gwahanol siopau yn Aberaeron, Aberystwyth a Chastellnewydd Emlyn. Diolchodd Bethan iddi am noson ddiddorol. Enillwyd y raffl gan Mary. Ar ôl cwpaned wedi ei baratoi gan Bethan a Brenda cafwyd cyfarfod busnes. Trafodwyd y 'Resolutions' ar yr agenda yn y cyfarfod blynnyddol. Darllenwyd y llythyr misol. Bydd Dominos yng Ngwesty'r Porth, Llandysul ar nos Fawrth, Chwefror 26ain.

Clybiau Ffermwyr Ifanc

Ceredigion

Blwyddyn newydd dda i holl ffrindiau'r mudiad. Daeth 2018 i ben gyda llu o gystadlu, a joio yn nawnsfeydd y frenhines. Edrychwn ymlaen at flwyddyn fyrlymus arall yn 2019.

Cynhaliwyd y gystadleuaeth chwaraeon dan do ar ddiwedd 2018. Cyhoeddwyd y canlyniadau ym mhwyllgor gwaith y sir yn Ionawr. Snwcer 1. Rhydian Ellis Jones, Llangwryfon; 2. Llyr Davies, Caerwedros; 3. Dyfan Evans, Troedyaaur; 4. Llywelyn Miles, Felinfach. Pwl 1. Osian James, Trisant; 2. Owen Mathias, Troedyaaur; 3. Bleddyn Llew Thomas, Felinfach; 4. Sam Jenkins, Llanddewi Brefi. Drafftiau 1. Osian Davies, Llanwenog; 2. Alun Humphreys, Tregaron; 3. Gethin Jenkins, Mydroilyn; 4. Soffia Cynwyl, Penparc. Dominos 1. Steffan Parry, Pontsian; 2. Dafydd James, Troedyaaur; 3. Megan Jones, Mydroilyn; 4. Abbie Grotta, Penparc. Tennis Bwrdd Merched 1. Catrin Soons, Troedyaaur; 2. Gwenan Davies, Mydroilyn; 3. Siriol Teifi, Pontsian; 4. Ffion Evans, Felinfach. Tennis Bwrdd Bechgyn 1. Deiniol Organ, Troedyaaur; 2. Dyfrig Williams, Llangwryfon; 3. Gethin Jenkins, Mydroilyn; 4. Guto James, Lledrod. Tennis Bwrdd Dwbwl 1. Rhodri a Dafydd, Troedyaaur; 2. Rhodri a Dafydd, Penparc; 3. Hedd a Megan, Llangeitho; 4. Guto a Glen, Felinfach. Dartiau Merched 1. Angharad Evans, Mydroilyn; 2. Cerys Owens, Tregaron; 3. Cara Edwards, Llangeitho; 4. Elen Lloyd Jones, Pontsian. Dartiau Bechgyn 1. Michael Roberts, Troedyaaur; 2. Barry Hughes, Caerwedros; 3. Llyr James, Llangeitho; 4. Scott Grotta, Penparc. Dartiau Dwbwl 1. Marc a John, Lledrod; 2. Gwion a Daniel, Llanddewi Brefi; 3. Helen a Dion, Llangwryfon; 4. Dion a Daniel, Pontsian. Tipit 1. Beca, Carys a Leah, Penparc; 2. Dewi, Ifan a Guto, Llanddeiniol; 3. Lily, Cerys ac Alaw, Caerwedros; 4. Lisa, Martha ac Ifan, Bro'r Dderi. Throw Pong 1. Megan, Mared a Carys, Lledrod; 2. Llyr ac Ifan, Penparc; 3. Eryllt, Rhodri a Dylan, Llangwryfon; 4. Mari, Begw a Megan, Tregaron. Canlyniadau terfynol 1. Troedyaaur; 2. Llangwryfon; 3. Mydroilyn

Cwis hŷn y sir - Cwis Cyffredinol 1. Felinfach B 2. Llangeitho a Tregaron. Cwis Amaethyddol 1. Trisant 2. Lledrod 3. Caerwedros. Cwis Diogelwch ar y Ffordd 1. Llangeitho 2. Felinfach, Llanddeiniol, Troedyaaur A a Troedyaaur B. Canlyniadau terfynol 1. Felinfach 2. Llanddeiniol a Llangeitho

Siarad cyhoeddus Cymraeg - 14 oed neu iau Cadeirydd 1. Siôn Wyn Evans, Felinfach A 2. Oisín Lludd, Talybont 3. Ffion Davies, Llanwenog A. Darlennydd Gorau 1. Elain Tanat, Talybont 2. Siôn Wyn Evans, Felinfach A ac Oisín Lludd, Talybont. Tîm 1. Talybont 2. Llanwenog A 3. Pontsian. 16 oed neu iau Cadeirydd 1. Megan Dafydd, Llangeitho 2. Sioned Davies, Llanwenog B 3. Teleri Morgan, Talybont. Siaradwr Gorau 1. Hedd Dafydd, Llangeitho 2. Sioned Davies, Llanwenog B 3. Teleri Morgan, Talybont. Diolchyd Gorau 1. Gwenan Owen, Mydroilyn 2. Beca Jenkins, Pontsian 3. Osian Davies, Llanwenog B ac Elin Williams, Lledrod. Tîm 1. Llangeitho 2. Lledrod 3. Llanwenog B. 21 oed neu iau Cadeirydd 1. Alaw Fflur Jones, Felinfach 2. Nest Jenkins, Lledrod 3. Siriol Teifi, Pontsian. Siaradwr Gorau 1. Lowri Jones, Lledrod 2. Rhys Davies, Llanwenog 3. Eiry Williams, Llangwryfon. Tîm 1. Felinfach 2. Llangwryfon 3. Lledrod. 26 oed neu iau Cadeirydd 1. Megan Lewis, Trisant 2. Gwenan Davies, Mydroilyn a Lowri Jones, Lledrod. Siaradwr Gorau 1. Cennydd Jones, Pontsian A 2. Naomi Nicholas, Pontsian B 3. Elen Jones, Llangeitho a Nest Jenkins, Lledrod. Tîm 1. Pontsian A 2. Lledrod a Pontsian B. Canlyniadau terfynol 1. Lledrod a Pontsian 3. Llanwenog.

Eleni, bydd ein cadeirydd, Caryl Haf o CFfll Llanddewi Brefi yn gosod her triathalon i aelodau a ffrindiau'r mudiad. Cynhelir yr her ar y 6ed o Ebrill, a bydd yn cynnwys 5km o gerdded/ rhedeg, 40km o seiclo a tua 2km o rwyfo. Bydd ffurflenni noddi ar gael, bydd yr arian a godir yn cael ei rannu rhwng CFfll Ceredigion, Cymdeithas Alzheimer ac CFfll yr unigolyn. Croeso i bawb gwneud cyn lleied/cymaint ag yr hoffent. Am ragor o fanylion, cysylltwch â'r swyddfa ar 01570 471444.

Clwb 200 Rhagfyr - 1. Dafydd Morris, Glancarrog, Llanrhystud; 2. Arwyn Davies, Pentre Llanfair, Llanbedr Pont Steffan; 3. D & A E Lewis, Tregaron, Rhydybont, Tregaron. Ionawr - 1. Shân Phillips, Llether Neuadd, Llanfihangel-ar-Arth, Pencader; 2. Rhian Jones, Awelfor, Plwmp, Llandysul; 3. Elin Haf Jones, Tŷ Newydd, Maesycrugiau, Pencader.

Dyddiadau i'ch dyddiadur: 25ain o Chwefror – 1af o Fawrth: Cystadleuaeth ½ awr adloniant. Bydd tocynnau'n mynd ar werth ar y 6ed o Chwefror – mae'n argoeli i fod yn wythnos llawn adloniant. Mawrth 4ydd: Cyngerdd tri chlwb uchaf yn yr ½ awr adloniant. Mawrth 9fed – 10fed: Gwledd adloniant CFfll Cymru, Y Drenewydd. Mawrth 15eg: Dawns dewis swyddogion, Y Talbot. Mawrth 17eg: Cymanfa ganu swyddogion y sir. Mawrth 20fed: Is-bwyllgorau a phwyllgor gwaith y sir. Mawrth 23ain: Cystadleuaeth siarad cyhoeddus CFfll Cymru, Maes y Sioe, Llanellwedd.

Clwb Dyffryn Cothi



Wyn Thomas (Beirmiad), Sulwen Richards, Lynwen Mathias, Jean Lewis (Cadeirydd CFfll Sir Gaerfyrddin). Absennol o'r llun: Carwen Richards

Yn wir, mae Ionawr wedi bod yn fis prysur i ni fel clwb. Dechreuwyd gweithgareddau'r flwyddyn gyda'n Gyrfa Chwist flynyddol ar nos Iau'r 3ydd o Ionawr. Diolch i Carys Thomas am fod yn MC ar y noson, i'r Cynghorydd Sir, Mr. Mansel Charles am ei bresenoldeb ac i bawb arall a ddaeth i gymryd rhan.

Cafwyd noson hwyliog a chwyslyd yng Nghanolfan Hamdden Llambed ar nos Wener yr 11eg o Ionawr. Roedd hi'n braf gweld dros ugain o aelodau ac arweinyddion yn mwynhau rhywfaint o ymarfer corff cymdeithasol!

Profwyd ein ffitrwydd unwaith yn rhagor ar nos Wener y 18fed o Ionawr gyda gweithdy Twmpath Dawns yng nghwmni Jennifer, un o arweinwyr Dawnsywyr Penrhyd. Diolch iddi am ei hegni a'i ffordd hwyliog o'n harwain drwy'r dawnsfeydd.

Ar nos Wener y 25ain o Ionawr, aeth criw o aelodau i Noson Chwaraeon C.Ff.I Llangadog. Mynychodd gweddill yr aelodau Noson Bingo Neuadd Bro Fana, Ffarmers, lle'r oedd llond lle o chwerthin iach a gwobrau mawr i'w hennill! Diolch i Bwyllgor y Neuadd am eich croeso cynnes.

Llongyfarchiadau gwresog i un o aelodau hŷn y clwb, Aled Thomas, llethr ar gael ei ethol yn Is-Gadeirydd Pwyllgor Gweithgareddau C.Ff.I Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar.

Ddydd Sadwrn y 26ain o Ionawr, cynhaliwyd cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus C.Ff.I Sir Gaerfyrddin yn Ysgol Gynradd Nantgaredig. Enillwyd y gystadleuaeth Dadl Hŷn oedd Lynwen Mathias, Sulwen Richards a Carwen Richards (absennol o'r llun) o G.Ff.I Dyffryn Cothi. Diolch i Eryl Morgan am roi o'i hamser i'w hyfforddi.

Edrychwn ymlaen nawr at gystadlu yng Nghystadleuaeth Adloniant C.Ff.I Sir Gaerfyrddin ar y 25ain o Chwefror yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad
Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Bag Siopa Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i'ch enw ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

3		9		4		6
	8			2		
6	7	1				
8			5			7
5						1
		3		6		5
					9	3
			8			7
	9		3		5	6

Swdocw Rhagfyr

Llongyfarchiadau i:
Megan Dafydd, Cwmann
a diolch i bawb arall
am gystadlu: Bethan
Williams, Llanybydder;
Avril Williams,
Cwmann; Richard
Evans, Olmarch; Joan
Stacey, Ffaldybrenin;
Eurwyn Davies,
Llanybydder; Glenys
Davies, Llanybydder ac Augusta Davies,
Llanbed.

7	8	3	2	6	1	9	5	4
1	4	2	8	9	5	6	7	3
6	5	9	4	3	7	8	2	1
4	6	7	9	5	2	1	3	8
9	2	5	3	1	8	7	4	6
8	3	1	6	7	4	5	9	2
3	9	8	5	4	6	2	1	7
5	7	6	1	2	3	4	8	9
2	1	4	7	8	9	3	6	5

Llanybydder

Aberduar Llanybydder

Cynhaliwyd oedfa Nadolig capel Aberduar ar y 23ain o Ragfyr. Roedd nifer o bobl ifanc yr eglwys yn cymryd rhan. Cyhoeddwyd yr emyn agoriadol sef 'I orwedd mewn preseb' gan Elin Evans. Yn dilyn cafwyd adroddiadau gan dri ifanc iawn sef Gwenno a Prys Jones yn sôn am yr asyn bach yn cario Mair i Fethlehem a hefyd Dafydd Williams yn sôn am y Nadolig cyntaf. Cafwyd darlenniad o'r hen destament gan Hedydd Wilson yn sôn am yr addewid am ddyfodiad y Meseia. Cafwyd gweddi gan Gareth Williams a hanes yr Angel Gabriel yn dod at Mair gan Bleddyn Jones. Cyflwynwyd gweddill yr emynau yn ystod y gwasanaeth gan Hywel Evans, Richard Milcoy, Arwel Jones a Lyn Jenkins. Bu Llyr Davies yn sôn am eni'r Iesu ar y Nadolig cyntaf ac am ymweliadau'r bugeiliaid â'r stabl. Yn sôn am ymweliad y doethion bu Hedydd Wilson. Cafwyd adroddiad o waith W Rhys Nicholas gan Lowri Gregson. Cyflwynodd Arwel Jenkins weddi. Yn cyfeilio roedd Rhiannon Lewis a wnaeth hefyd gyflwyno adroddiad o waith Mererid Hopwood. Bu Lowri hefyd yn cyflwyno stori gyda naws Nadoligaidd iddi o waith Dwynwen Teifi. Diwedddwyd yr oedfa gyda Arwel Jenkins yn cyflwyno'r fendith. Trefnwyd yr oedfa gan Dewi Davies Glynteg a wnaeth hefyd ddiolch i bawb am eu cyfraniad i'r oedfa ac i'r gynulleidfa am eu cefnogaeth. Yn dilyn yr oedfa fe wnaeth pawb droi i mewn i'r festri am sgwrs a phaned wedi ei pharatoi gan y chworiydd.

Am naw o'r gloch fore dydd Nadolig cafwyd oedfa hyfryd iawn dan arweiniad ein gweinidog y Parch Densil Morgan gyda Rhiannon Lewis wrth yr organ. Cafwyd neges arbennig gan ein gweinidog. Carwn ddymuno blwyddyn newydd dda i'n gweinidog a'r teulu.

Pobi ers 25 mlynedd

Llongyfarchiadau i Dafydd, Gethin a'u staff o siop Bara Gwalia am gyrraedd carreg filltir bwysig iawn sef pobi bara yn y pentref ers 25 mlynedd. Mae'r cwsmeriaid i gyd yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth a'r cyfraniad mawr a wneir i fywyd yr ardal, heb sôn am y danteithion a gaiff eu paratoi ganddynt yn feunyddiol. Pob dymuniad da i'r busnes am flynyddoedd lawer.

Lleisiau'r Werin

Cynhaliwyd ein gwasanaeth Nadolig blynyddol yn Eglwys Sant Pedr Llanybydder. Canwyd llawer o garolau amrywiol a chafwyd darlenniadau Nadoligaidd gan aelodau'r côr ac eitemau swynol gan barti CFfI Llanwenog. Braf dweud fod yr eglwys yn llawn a diolch i bawb a gyfrannodd tuag at Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru, Caerdydd gan sicrhau cyfanswm o £900. Byddwn yn cyflwyno'r siec i aelodau o staff yr uned yn y dyfodol agos. Cyn y Nadolig hefyd, gwnaethom ymweld eto â chartref nysio Alltymynydd gan ddod â naws yr Ŵyl i'r preswylwyr. Yna, i gloi cyfnod y carolau, bu rhai o'r aelodau yn canu yng Ngwesty Tŷ Glyn Aeron yng nghinio Nadolig henoed Aberystwyth. Gyda blwyddyn Newydd wedi gwawrio, edrychwn ymlaen yn awr at fwy o ganu a chymdeithasu.

Bingo

Bydd Ysgol Feithrin Llanybydder yn cynnal noson bingo ar y 26ain o Fawrth yn y Clwb Rygbi am 8.00 o'r gloch. Gwobrau ariannol a raffl.

Dawns y Frenhines

Bydd Pwyllgor y Pentref yn cynnal noson "Queen selection ball" yng Ngwesty Crosshands ar y 12fed o Ebrill am 6.00 o'r gloch.



Pawb a gymerodd ran yn oedfa'r Nadolig yng nghapel Aberduar.

Clwb Hoci Llanybydder



Ym mis Medi 2018, ymunodd Clwb Hoci Llanybydder â Chynghrair De Cymru, wedi diddymiad anochel Cynghrair Gorllewin Cymru. O ganlyniad i hyn, byddai'n rhaid teithio'n bellach nag Aberystwyth ac Aberteifi ar gyfer gemau oddi cartref! A fyddai'r tîm yn medru dygymod â hyn, gyda sawl un o'r garfan yn famau neu'n blant ysgol?

Yn wir, pum mis yn ddiweddarach, gallwn gadarnhau bod Clwb Hoci Llanybydder wedi cael tymor llwyddiannus dros ben mor belled. Eisteddant yn gyffyrddus ar frig y tabl ym mhumed adran Cynghrair Menywod De Cymru.

Diolch i Gwyneth Richards am ddyfarnu ein gemau cartref ac i'n noddwyr am eu haelioni di-baid. Dyma restr o'n noddwyr: Cyfri, Conti's, W. T. Jarman & Sons, Garej Brondeifi, Morgan & Davies, Mark Lane, J&E Woodworks, bccIT, Gwili Jones, The Nags Head, Y Pantri, Carpedi Gwyn Lewis Cyf., Castle Green.

Ein her nesaf, heblaw am ein gemau wythnosol, fydd gêm blât yn erbyn 2il XI Penfro ganol fis Chwefror. Cadwch lygad ar ein cyfrif Facebook, Clwb Hoci Llanybydder am fanylion diweddaraf a chanlyniadau pob gêm.

Cwmsychpant

Siarad Cyhoeddus Saesneg

Cynhaliwyd cystadleuaeth Saesneg C.F.f.I. Ceredigion ar ddydd Sul cyntaf mis Rhagfyr. Daeth tipyn o lwyddiant i ieuencid y Cwm: Dan 14 – Lleucu Rees, Caeronnen, Clwb Llanwenog – Cadeirydd 1af a Darlennydd 1af. Tîm – Clwb Llanwenog A 2il – Lleucu Rees, Luned Jones ac Elen Morgan. Dan 16 – Hafwen Davies, Fronheulog, Clwb. Llanwenog – Cadeirydd 1af, Siaradwr – Elin Davies, Tyngrug-Isaf, Clwb Llanwenog 2il. Diolchyd – Beca Jenkins, Hafan y Cwm, Clwb Pontsian 1af. Tîm – Clwb Llanwenog A 2il - Elin Davies, Hafwen Davies a Lois Jones. Dan 21 – Cadeirydd - Meinir Davies, Caerwenog 1af. Siaradwr – Beca Jenkins, Hafan y

Cwm, Clwb Pontsian 3ydd. Tîm – Llanwenog 1af – Meinir Davies, Rhys Davies, Twm Ebbsworth a Sioned Fflur Evans. Tîm Pontsian 3ydd – Beca yn aelod o'r tîm. Dan 26 – Cadeirydd – Endaf Griffiths, Penlanfawr, Clwb Pontsian 1af.

Canu Carolau a pharti'r Ysgol Sul

Ar y nos Wener cyn Dolig aeth dau griw o aelodau Ysgol Sul ac Ieuencid Capel y Cwm allan i ganu carolau o amgylch ardaloedd Cwmsychpant, Cwrtnewydd a Drefach. Nid oedd y tywydd yn rhy ffafriol ond fe ddaethant i ben â chodi £285.00 tuag at gronfa leol Plwyfi Llanwenog a Llanwnnen i Eisteddfod 2020. DIOLCH yn FAWR iawn i BAWB a gyfrannodd.

Ar ôl iddynt ddychwelyd o ganu

daeth Santa i weld pawb a rhannu anrhegion â nhw ac i orffen cafwyd tec-awe o sglodion o Lamed a phawb wedi bwyta gyda'i gilydd.

Cydymdeimlo

Ar ddydd Nadolig daeth tristwch i ran Elenid a theulu Talar Wen pan fu farw ei thad sef Teifi Jones, Llwynpur, Horeb. Cydymdeimlwn yn ddwys ag Elenid, Eifion a'r merched, Hedydd a Catrin, ar golli tad a thad-cu annwyl.

Siarad Cyhoeddus Cymraeg

Unwaith yn rhagor yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus C.F.f.I.Ceredigion daeth llwyddiant i unigolion y Cwm. Dan 14 – Tîm Llanwenog A yn cynnwys Hafwen Davies, Fronheulog, Lleucu Rees,

Caeronnen a Ffion Davies. Tîm Pontsian yn 3ydd yn cynnwys Lisa Jenkins, Hafan y Cwm, Rebecca Rees a Cadi Rees. Dan 16 – Diolchyd – Beca Jenkins, Hafan y Cwm, Clwb Pontsian yn 2il ac Osian Davies, Fronheulog Clwb Llanwenog yn gydradd 3ydd. Tîm Llanwenog B yn 3ydd Osian a Hafwen Davies a Ffion Davies. Dan 21 – Siaradwr – Rhys Davies, Tyngrug-Isaf Clwb Llanwenog yn 2il.

Llongyfarchiadau i Glwb Pontsian ar ddod yn gydradd 1af gyda Lledrod a Llanwenog yn 3ydd.

Yn yr ysbyty

Ers cyfnod y Nadolig mae Betty Jones, Delfan yn ysbyty Bronglais yn derbyn triniaeth yno. Gobeithio eich bod ar wellhad erbyn hyn.

Llanbedr Pont Steffan



Cerys Angharad a Tudur yn cyflwyno anrhegion i Janet ar ran Ysgol Sul Noddfa fel gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.

Sefydlu

Roedd dydd Sadwrn 12 Ionawr 2019 yn ddiwrnod arbennig iawn yn hanes Cylch Bedyddwyr Gogledd Teifi. Cynhaliwyd oedfaon i sefydlu'r Parchedig Ddr D. Densil Morgan yn weinidog ar chwech o eglwysi'r cylch - Aberduar Llanybydder; Bethel Silian; Brynhafod Gors-goch; Caersalem Parc-y-rhos; Noddfa Llanbedr Pont Steffan; a Seion Cwrtnewydd.

Cynhaliwyd yr oedfa sefydlu yn Aberduar yn y prynhawn, gyda'r Parchedig Jill Tomos, cyn-weinidog y Cylch, yn llywyddu a'r Parchedigion Wynn Vittle, cyn-weinidog Aberduar, Seion a Brynhafod, ac Eirian Wyn Lewis, yntau wedi ei fagu yn Aberduar, yn cymryd at y rhannau arweiniol. Roedd y sefydlu yng ngofal y Parchedig Judith Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb, gyda Delyth Morgans Phillips yn rhoi hanes yr alwad a'r gweinidog newydd yn ymateb iddi. Un arall o blant Aberduar, sef y Parchedig D. Aled Davies, a offrymodd yr urdd weddi a phregethwyd yn afaelgar iawn ar weledigaeth Eseciel 37, 'Fab dyn, a all yr esgyn hyn fyw?' gan Y Parchedig Olaf Davies, yntau'n gyn-weinidog Aberduar, Seion a Brynhafod ac yn gyfaill coleg i'r gweinidog newydd. Cafwyd cyfarchion gan y Parchedigion Ieuan Elfryn Jones ar ran y Coleg Gwyn ym Mangor, Eirian Wyn, ar ran mam-eglwys y gweinidog newydd sef Seion Newydd, Treforus, a Bill Fillery, offeiriad â gofal yn Llanwenog a Llanybydder, ar ran yr eglwys lleol. Geraint Puw, Llywydd y Gymanfa, a roes gyfarchion ar ran Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion. Roedd hi'n oedfa o sylwedd gydag eneniad ar y pregethu ac ar holl gynnwys y prynhawn. Rhiannon Lewis a oedd wrth yr organ a chyhoeddwyd y fendith gan y Parchedig Owain Llŷr Evans, yntau'n fab i un o gyn-weinidogion Aberduar.

Wedi ysbaid am de a sgwrs yn y festri, cafwyd oedfa bregethu yn yr hwyr yn Noddfa, Llanbedr Pont

Steffan. Cafwyd datganiad cerddorol gan Gôr Corisma, côr merched lleol sy'n cynnwys mwy nag un o aelodau eglwysi'r cylch, a chan un o ieuenctid Noddfa sef Elan Jones. Un o gyn-weinidogion Noddfa, Bethel a Chaersalem, sef y Parchedig D. Hugh Matthews, a draddododd y siars ar sail Actau 2:14, 'Safodd Pedr ynghyd â'r un-ar-ddeg, a chododd ei lais a'u hannerch', sef araith Pedr ar Ddydd y Pentecost. Cymerwyd rhan hefyd gan y Parchedigion Glan Roberts ac Alwyn Daniels, hwythau'n gyn-weinidogion (ac Alwyn yn gyfaill coleg i'r gweinidog newydd). Mr T. Gareth Jones o'r Eglwys Efengylaidd, cymydog i'r gweinidog newydd a'i wraig, a gyhoeddodd y fendith. Roedd Alwena Evans wrth yr organ. Fel yn y prynhawn, profwyd bendith fawr.

Mae Densil Morgan wedi dechrau ar ei waith yn weinidog yn y Cylch ers 1 Hydref 2018, yn olynu'r Parchedig Jill Tomos. Nid yw Densil yn ddieithr i bobol yr ardal fodd bynnag, gan ei fod e ac Ann wedi setlo yn Llambod oddi ar 2010; mae'r ddau yn aelodau gweithgar o eglwys Noddfa ac yn cyfrannu'n helaeth at weithgarwch yn y gymuned.

Dymunwn fendith ar y bennod newydd hon yng Nghylch Eglwys Bedyddwyr Gogledd Teifi.

Ysgol Sul Noddfa

Bu'r flwyddyn a aeth heibio yn un llwyddiannus unwaith eto yn hanes Ysgol Sul Noddfa. Bu'r plant yn dod yn ffyddlon bob nos Wener am 4 o'r gloch a'r rhieni yn cymryd eu tro i gynorthwyo yn wythnosol. Cymerodd yr aelodau ran yn y Gymanfa Ganu a gynhaliwyd yn Salem ac mewn nifer o Oedfaon yr Ifanc gan dderbyn canmoliaeth uchel iawn am eu gwaith. Maent wedi cyfrannu tuag at Fanc Bwyd y dref hefyd.

Braf oedd gweld cynulliad teilwng wedi dod ynghyd i Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul wedi ei llunio gan Janet. Fe'n tywyswyd i Fethlehem mewn pennill a chan gan 21 o blant a phobl ifanc ynghyd ag 8 o'r mamau. Bu'r



Rhai o blant ac ieuenctid Noddfa a fu'n diddanu preswylwyr Hafandeg.

plant cynradd yn cyflwyno drama'r geni a phob un yn seren ac wrth eu bodd yn dathlu pen-blwydd Iesu a'r rhai lleiaf fel arfer yn codi gwên gyda'u canu brwdfrydig. Roedd y cyfuniad o'r gwisgoedd traddodiadol a chyfoes yn ychwanegu at naws yr ŵyl ac at fwynhad y gynulleidfa. Hefyd cyfoethogwyd yr Oedfa gan ddarlenniadau o'r Ysgrythur, gweddiâu, unawdau, adroddiadau a grwpiau canu.

Ar ran yr Ysgol Sul cyflwynwyd anrhegion i Janet gan Cerys Angharad a Tudur fel gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth diflino ar hyd y flwyddyn. Talodd hithau deyrnged uchel i'r plant am eu ffyddlondeb a'u teyrngarwch i'r Ysgol Sul ac i'r rhieni am eu cydweithrediad a'u cymorth mawr. Hefyd llongyfarchodd nifer o'r bobl ifanc sydd yn dal i ragori yn genedlaethol mewn gwahanol feysydd sef Tomos Jones (criced), Lisa ac Osian Roberts (athletau) ynghyd â'u cefnder Sion Evans (rasys beiciau modur). Hefyd dewiswyd Cerys Angharad i ganu'r delyn yng Ngherddorfa Plant Prydain Fawr am yr ail flwyddyn yn olynol ac enillodd Lisa Evans y marciau uchaf dros Gymru am y gwaith tecstilau TGAU mwyaf arloesol. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol. Ymhyfrydwn yn eu llwyddiant.

Ar ddiwedd yr Oedfa pwy alwodd heibio ond Santa (diolch i Roy) a bu'n brysur iawn yn dosbarthu llond sach o anrhegion. Diolch yn fawr i Alun ac Eifion am eu rhoddion o ffrwythau i bawb eleni eto.

I ddiwedd prynhawn hyfryd a bendithiol mwynhawyd te parti ardderchog wedi ei baratoi gan y rhieni dan gyfarwyddyd Llinos. Edrychwn ymlaen at gydweithio hapus a llwyddiannus eto yn ystod 2019.

Nos Wener 11 Ionawr bu criw o aelodau'r Ysgol Sul yn diddanu'r Henoed yng Nghartref Hafandeg. Cyflwynwyd nifer o eitemau safonol yn cynnwys deuawd gan Lisa a Beca, unawd gan Trystan Bryn ynghyd â grwpiau canu amrywiol.

Roedd y plant i gyd wrth eu bodd yn perfformio a'r Henoed wedi cael gwledd yn eu cwmni. Hefyd bu'r mamau a'r preswylwyr yn ymuno â'r plant i ganu nifer o emynau adnabyddus gan fwynhau yn fawr iawn.

Wrth dalu diolch i'r plant a'r bobl ifanc dywedodd Owena Williams, un o'r preswylwyr, "Ni gyd wedi mwynhau pob nodyn chi wedi canu" sydd yn dweud y cyfan. Cyn troi tuag adre cafwyd cyfle i fwynhau lluniaeth ysgafn ac i gymdeithasu.

Llwyddiant Academaidd

Llongyfarchiadau i Cari Lake ar ei llwyddiant yn y byd academiaidd. Mae wedi derbyn Gradd Meistr yn y Celfyddydau (M.A.) gyda rhagoriaeth mewn Astudiaethau Cyfieithu Llenyddol o Brifysgol Warwick ac wedi dechrau ar ei swydd yn y Gyfnewidfa Lân yn Aberystwyth. Estynnir dymuniadau gorau iddi i'r dyfodol.

Aelwyd yr Urdd

Erbyn i Clonc ddod o'r wasg bydd yr aelodau wedi cynnal cyfarfod cyntaf y tymor newydd ac wedi paratoi rhaglen ar gyfer y misoedd i ddod. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth Chwefror 12fed. Mae'r Aelwyd yn cwrdd bob pythefnos o 7 hyd 8.15 ac estynnir croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

Merched y Wawr

Dechreuwyd y noson trwy ganu cân y mudiad gydag Elin yn cyfeilio. Croesawodd Elin bawb a dymuno i ni Flwyddyn Newydd Dda. Ar ôl delio â rhai manylion busnes aethom ymlaen i gael noson wahanol wrth wrando ar storïau rhai o'n haelodau am y 'pethau bach sbeshal' roeddent wedi dod â nhw i ddangos i ni. Dechreuodd Aerwen y noson trwy ddod â chadair fach Eisteddfod Gadeiriol Caradoc oedd wedi ei hennill gan Eiddwen James yn 1965, bardd, awdur a phrifathrawes ysgol y pentref, Llanfair Clydogau. Roedd Aerwen wedi ysgrifennu barddoniaeth yn disgrifio ei hatgofion o'i hathrawes

Llanbedr Pont Steffan



Cantorion Plygain Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Cynhaliwyd Cinio Blynnyddol y Grŵp Trafod yng Nghlwb Rygbi Llanbedr ar nos Wener, Ionawr 11eg. Y gŵr gwadd eleni oedd Gethin Havard o Bontsenni. Beef & Sheep Clamp – 1. Teifi Jenkins, Tyhen. 2. Denley Jenkins, Pantyrodyn 3. Elfyn Morgans, Glwydwrn. Dairy Clamp – 1. Daniel Evans, Tandderi 2. Dafydd Lloyd-Jones, Ystrad Dewi 3. Iwan Jenkins, Tyllwyd. Gwair – 1. Carwyn Davies, Penlan 2. Eilir Jones, Dremddu 3. Jonathan Jones, Derigoch. Big Bale Dairy – 1. Eurig Jenkins, Pentrefelin 2. Teifi Jenkins, Tyhen 3. Jonathan Jones, Derigoch. Dairy Overall – Daniel Evans, Tandderi. Beef & Sheep Overall – Teifi Jenkins, Tyhen. Enillydd cyffredinol cwpan coffa Albert Evans – Daniel Evans, Tandderi. Yn y llun gwelir y buddugwyr gyda'r gŵr gwadd a'i wraig Ceri a swyddogion y Grŵp Trafod.

a'i hamser yn yr ysgol. Hi oedd yr unig athrawes i'w dysgu o bedair hyd un ar ddeg oed a'r person a'i hysbrydolodd i fynd yn athrawes ei hunan.

Siaradodd Elin am ddau beth, yr un cyntaf, oedd erbyn hyn yn hollol ran ohoni, ei ffôn symudol. Yr ail oedd llun o hen giosg coch B.T. a oedd wedi chwarae rhan bwysig iawn yn ei charwriaeth hi â'i gŵr, Dafydd, pan oeddent yn byw yn y gogledd. Aeth Elsie â ni'n ôl i 1945 pan oedd yn blentyn ifanc yn cerdded milltir o'i chartref mewn ffermdy ar y mynydd i lawr i bentref Llanddewi Brefi ac i festri Capel Bethesda i sefyll arholiad Ysgol Sul Methodistiaid De Cymru. Yno roedd tua phymtheg o blant yn cymryd rhan. Yna cerdded adref yn y tywyllwch. Dangosodd i ni y fedal a enillodd am ddod yn gyntaf yn yr arholiad hwnnw, hithau wedi ei thrysori drwy ei hoes. Dau ornament gwyn, hen ac anghyffredin ddaeth Eryl i ddangos i ni, rhain yn ei hatgoffa sut y cafodd ei henw, a thraddodiadau teuluoedd o alw babis ar ôl perthnasau agos a'r fam a'r tad, yn aml, ddim yn cael y rhyddid i ddewis. Dewisodd Gillian dri pheth i siarad amdanynt, pob un â chysylltiad â'r llall. Ffwrdd diwnio ei thad-cu oedd y cyntaf. Roedd yn ddyn cerddorol iawn a ddysgai gorau bach i ganu, a dim piano ar gael bob amser. Gofynnodd i of Llanwnnen greu'r fforc yma ac er mwyn gwneud y fforc yn gywir cerddodd y gof filltir lan i fferm Beilbedw i chwarae'r 'C ganol' ar y piano, yna cadw'r nodyn yn ei ben wrth greu'r fforc nôl yn ei weithdy yn Llanwnnen ac mae'n berffaith mewn tiwn o hyd Ei hail drysor oedd

breichled aur ei mam-gu, sef anrheg dywedddio ei thad-cu i'w mam-gu. Y trydydd oedd llun a dderbyniodd yn ddiweddar o ddynes na wyddai pwy oedd. Ar ôl ymchwil, darganfod mai gwraig gyntaf ei thad-cu ydoedd, hithau wedi marw yn ei thriedegau gan adael tri o blant bach ifainc. Hanesion diddorol teulu, nawr pob un yn drysor. A gorffen gyda Mary, oedd wedi dod â samplau o wniaduron yr oedd wedi eu casglu ers blynnyddoedd. Roedd wedi dewis rhai anghyffredin i ddangos i ni, rhai yn anrhegion neu o wahanol wledydd a rhai i'w hatgoffa am wyliau neu bobol. Noson ddiddorol am y 'pethau bach sbeshal'.

Diolchwyd i Eryl a Pat am y te a Janet oedd enillydd y raffl. Edrychwn ymlaen at Chwefror yr 11eg pan fydd y dysgwyr yn ymuno â ni ar gyfer noson o arlunio.

Brondeifi

Y gweinidog - y Parch Alun Wyn Dafis - oedd yn y pulpud ar gyfer oedfa gynta'r flwyddyn ar y 6ed o Ionawr. Y Sul canlynol wedyn - y 13eg - Melda Grantham gymerodd y gwasanaeth. Yna, ar yr 20fed, fe fu Gareth a Tanya Morgans yn trefnu oedfa arbennig yng nghwmni rhai o aelodau'r Capel sy' wedi croesi'r 30 oed. Cafwyd cyfraniadau graenus gan amrywiaeth o bobl. Ar y 27ain o Ionawr, tro Ioan Wyn Evans oedd hi i gynnal gwasanaeth, gyda'r Parch Alun Wyn Dafis yn dychwelyd i'r pulpud wedyn ar y 3ydd o Chwefror ar gyfer Cymundeb. Ddydd Sul y 10fed o Chwefror, y gweinidog fydd yno hefyd ar gyfer gwasanaeth am 10 y bore. Croeso cynnes i aelodau a ffrindiau - hen a newydd.

Nos Iau y 24ain o Ionawr,

cynhaliwyd cinio blynnyddol Urdd y Benywod, Brondeifi. Paratôdd Delyth Jones wledd arbennig yn Y Pantri, a chafwyd noson i'w chofio yng nghwmni'r wraig wadd - Mrs Eirios Thomas, cyn-drefnydd Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin, ac un o blant Brondeifi.

Adran yr Urdd

Mae aelodau'r adran wedi bod yn brysur ar ddechrau'r tymor. Gwnaethant fwynhau'r profiad o ganu yng nghyngerdd Llwybrau Robert Arwyn yn ystod y mis. Diolch i'r aelodau am eu brwdfrydedd ac yn arbennig i Rhiannon a Lois am hyfforddi a chyfeilio. Cafwyd noson llawn hwyl yn y cwis Sirol a diolch i Anwen Eleri a Rhydian am drefnu. Bu Mr Eryl Jones yn cynnal cwis yn yr adran hefyd ac fe wnaeth pawb fwynhau cymaint nes eu bod eisiau cwis arall eto! Diolch Mr Jones

Plygain Llanbedr

Unwaith eto eleni roedd Capel Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant dan ei sang ar gyfer y gwasanaeth plygain. Daeth pobl o bob oed, o bob cenedl, at ei gilydd i'r oedfa fendithiol hon. Nos Lun, 3 Rhagfyr 2018, bu'r gynulleidfa gref yn canu'r hen garolau yn ddigyfeiliant ac yn gwrando'r hen neges.

Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Ddr Emma Whittick. Yna daeth nifer o garolwyr i gyflwyno eu cân: Saba a Sophia, Parti Plygain Coleg Llanbedr, Côr Cymysg Eglwys Llandeilo, Parti Meibion Llandeilo, Rhiannon Ifans a Trefor Pugh, Liz Evans, Parti'r Penrhyn, a Twynog Davies. I gloi'r gwasanaeth, gwahoddwyd y dynion ymlaen i ganu 'Carol y Swper' a chafwyd cyflwyniad grymus o'r garol fawr lle mae'r dynion yn canu am eu llawenydd fod 'swper neithior yr Oen' yn disgwyl y saint yn y nefoedd. Croesawyd pawb i'r Hedyn Mwstard ar ôl y gwasanaeth i gael sgwrs dros wydraid o bwnsh cynnes a lluniaeth ardderchog. Diolch i griw'r Hedyn Mwstard am eu cwmni.

Roedd yn hyfryd gweld Llywydd y Brifysgol, Dr R. Brinley Jones a Mrs Stephanie Jones, yn bresennol yn y gwasanaeth plygain yn ôl eu harfer, ynghyd â'u gwesteion personol. Eleni croesawyd atynt y Profost, yr Hybarch Shengmiao. Ymysg y gwesteion hefyd roedd Maer Llanbedr Pont Steffan, Ann Bowen Morgan. Trefnwyd y noson gan Dr Rhiannon Ifans o Gyfadran y Dyniaethau a'r Celfyddydau Perfformio.

Cylch Cinio

Ar nos Iau'r 6ed o Ragfyr daeth aelodau Cylch Cinio Llanbedr ynghyd yng Nghlwb Rygbi'r dref ar gyfer trydydd cyfarfod y tymor presennol a gwestai arbennig y noson oedd Mrs Eirios Thomas MBE a fu'n Drefnydd Mudiad Ffermwyr Ifanc Sir Gâr am 41 mlynedd. Er ei bod bellach yn byw ym mro Llanfynydd ei chartref cyntaf oedd fferm Coed Eiddig yng Nghwmann a chafodd ei haddysg yn ysgolion Cwmman a Llanbedr cyn mynd i astudio gwyddorau cartref yng ngholeg Bangor. Wedi treulio pedair blynedd yn athrawes yn ysgol Dolgellau fe'i penodwyd i'r swydd a fu ganddi tan iddi ymddeol a'i phrofiad yn y swydd honno oedd deunydd ei hanerchiad am 'weithio gyda phobol ifanc.'

Er llawer newid ym myd technoleg clywyd nad yw seiliau llwyddiant Mudiad y Ffermwyr Ifanc wedi newid oddi ar ei ddyddiau cynnar yn nhridegau'r ganrif ddiwethaf, sef meithrin sgiliau cyfathrebu a chymdeithasu a rhoi hyder i'r ieuencid wneud defnydd llawn o'u talentau - pethau sy'n medru bod o fantais arwyddocaol ym myd cystadleuol gwaith a gyrfa. Un newid y bu Mrs Thomas yn arbennig o falch i'w hyrwyddo yn ei chyfnod fel trefnydd Sir Gâr oedd sefydlu'r arfer o gynnal trafodaethau'r Mudiad trwy gyfrwng y Gymraeg ac roedd yn argyhoeddedig o gyfraniad y Mudiad yn gyffredinol i'r iaith, yn ogystal â'i gyfraniad i gymunedau trwy ddiddanu, llanw neuaddau a chodi arian i elusennau. Cafwyd ganddi ddarlun llawn

Llanbedr Pont Steffan

o weithgareddau'r Mudiad gan gynnwys y teithiau cyfnewid gyda ffermwrwyr ifanc o wledydd eraill a chan nodi'r 'sioc ddiwylliannol' a ddeilliodd o ymweliad Homer Huws o Batagonia ac ymweliad ffermwrwyr ifanc o Tsiecoslofacia yn nyddiau comiwnyddiaeth. Yr oedd Mrs Thomas yn ymfalchïo yn llwyddiant nifer o gyn-aelodau'r Mudiad - Nigel Owens y dyfarnwr a'r diddanwr, Shân Cothi'r gantores a'r ddarlledwraig adnabyddus ac Aled Hall y canwr operatig enwog. Ymhlith ei hatgofion oedd un cyfarfod yn rhinwedd ei swydd gyda'r diweddar Ian Paisley ym Mrwsel a chael gwybod ganddo ei fod yntau wedi treulio peth amser yn Llanbed.

Rhodddwyd gair o werthfawrogiad gan y Cynghorydd Eirwyn Williams, ei hun yn gyn-aelod o'r Mudiad, gan ddiolch i Mrs Thomas am anerchiad rhugl a rhwydd oedd yn amlwg wedi ennyn diddordeb ymhlith aelodau'r Cylch.

Daeth Cylch Cinio Llanbed ynghyd yng Nghlwb Rygbi'r dre ar y 3ydd o Ionawr ar gyfer cyfarfod cyntaf 2019 a'r gŵr gwadd ar yr achlysur hwn oedd Dorian Morgan, brodor o Lanbed sydd bellach yn byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd. Cafwyd peth o'i hanes gan y Llywydd, Eifion Williams, wrth iddo'i gyflwyno a chlywyd ei fod wedi mynychu ysgolion Llanbed cyn ennill gradd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe a mynd i weithio yn y Swyddfa Gymreig, yna'r Cynulliad ac yna'r BBC cyn troi i weithio ar ei liwt ei hun yn 2016.

Teitl anerchiad Dorian oedd 'Cyrraedd pob prifddinas yn Ewrop' ac, yn wir, er iddo aros yn dipyn o 'dderyn cartref' nes iddo adael y coleg, fe lwyddodd i wneud hynny cyn troi'n ddeugain oed, gan ymweld â 53 o brifddinasoedd a rhoi ystyr proffwydol i'w hoffter o'r atlas yn ei blentyndod cynnar. Anodd fyddai cwblhau gorchwyl fel hwn gyda pharti o deithwyr ac felly teithio ar ei ben ei hun a wnaeth yn amlach na pheidio. Wrth iddo sôn am ei brofiadau yn y dinasoedd niferus hyn, cafwyd syniad ganddo o'r pethau oedd wedi gwneud yr argraff ddyfnaf arno ar ei deithiau. Yr oedd Budapest ymhlith ei ffefrynnau a Berlin o ddiddordeb arbennig. O safbwynt daearyddol dywedodd mai Gwlad yr Iâ a'i thirlun llwm, arallfydol oedd y fwyaf unigryw o'r gwledydd. O safbwynt hanesyddol, roedd cysgod llanast dros rai o'r dinasoedd y bu ynddynt - Srebrenica ym Mosnia yng nghanol y nawdegau, Oslo tuag adeg anfadwaith y terfysgwr Anders Breivik, neu Chernobyl ger Kiev lle mae ôl-ffeithiau'r ddamwain niwclear yn parhau. Cyflawnodd

Dorian ei deithiau dros gyfnod a welodd newid mawr - bu'n ail-ymweld â Warsaw rhyw ugain mlynedd ar ôl ei ymweliad cyntaf gan ryfeddu i'r fath raddau yr oedd y ddinas honno wedi newid er gwell. Eto yr oedd o'r farn mai ymhlith rhai o werin bobl dlotaf dwyrain Ewrop y profodd y croeso cynhesaf fel ymwelydd.

Roedd aelodau'r cylch yn barod iawn â'u cwestiynau a gofynnwyd iddo ba wers a ddysgodd o'i deithiau a'i ateb oedd hyn, sef gwerthfawrogi cymaint y mae'r dinasoedd Ewropeaidd hyn yn amrywio o ran crefydd, diwylliant, rheolau ac arferion a dysgu i barchu a goddef y gwahaniaethau hynny. Ei gyngor i'r teithiwr oedd iddo baratoi rhaglen hyblyg a realistig ar gyfer bob dydd heb or-gynllunio, ac i deithio â meddwl agored. Gan ystyried ansicrwydd y sefyllfa wleidyddol bresennol, mynegodd y gobaith y bydd teithio o fewn gwledydd Ewrop yn parhau yr un mor ddidrafferth yn y dyfodol.

Rhodddwyd gair diffuant o ddiolch i Dorian gan Gwynfor Lewis ar ran yr aelodau gan ei longyfarch ar ei araith ddifyr ac ar ei lwyddiant yn ei yrfa.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar y 7fed o Chwefror pan fydd Michael Morgan, Felinfach, yn olrhain 'Hanes y Diwydiant Llaeth yng Ngheredigion.'

Llewod Llambed

Cawsom adeg brysur fel clwb cyn y Nadolig. Daeth Llandysul, tîm sydd newydd ddechrau, atom i chwarae gemau cyfeillgar. Y gêm gyntaf oedd Llandysul yn erbyn tîm Llewod Llambed sydd heb fod yn y gynghrair, ac roedd ystod eang o chwaraewyr yn y tîm yma. Chwaraewyd yr ail gêm yn erbyn tîm cynghrair Llewod Llambed. Enillodd Llandysul y gêm gyntaf a Llewod Llambed ddaeth i'r brig yn yr ail gêm. Diolch yn fawr i Landysul am ddod i chwarae'r gemau. Cyn bennu am y Nadolig trefnwyd gêm gyfeillgar arall, y tro yma yn erbyn Gwasanaeth Coed Llambed. Roeddem eisoes wedi chwarae yn eu herbyn nhw yn ein twrnamaint elusennol ond roeddem yn awyddus i gwrdd eto. Tîm llawn bechgyn oedd ganddyn nhw gyda'r rhan fwyaf ohonyn nhw ym mhell dros 6 throedfedd. Gyda'u brwdfrydedd a'u hegni llwyddodd y bechgyn i'n maeddu ni (mae'r sgôr dal i fod ychydig yn ddadleuol.)

Fel ychydig o hwyl trefnodd cynghrair pêl-rwyd Ceredigion dwnamaint Nadolig ar ein cyfer gydag enwau Nadoligaidd i'r timoedd a gwisg ffansi i gyd-fynd â'r thema. Llwyddom i gofrestru dau dîm sef "Lampeter Lights" a "Nadolig Llawen Llambed".



Agorwyd parc chwarae newydd ym Mharc yr Orsedd, Llanbedr Pont Steffan ar bnawn Sadwrn, 19 Ionawr gan y Maer Ann Bowen Morgan ac aelodau o'r Cyngor Tref. Roedd y Cynghorwyr Hag Harris ac Ivor Williams hefyd yn bresennol ar ran y Cyngor Sir a Rhiannon Ling ar ran Cymdeithas Dai Cymru a'r Gorllewin. Ariannwyd y parc gan y Cyngor Tref, grant gan y Cyngor Sir a chan y Gymdeithas Dai.

Diolchwyd yn arbennig i'r Cynghorwyr Chris Thomas ac Elin T Jones am eu gwaith yn ymchwilio ac yn trefnu'r gwaith gyda Playdale a chafwyd anerchiadau gan y Maer, Hag Harris a Rhiannon Ling. Bydd y parc newydd yn adnodd gwerthfawr i blant Llanbed.

Gwnaeth Aberaeron guro 'Lampeter Lights' i'r 5ed safle ar ôl gêm gyfartal a 5 munud o amser ychwanegol.

Ddechrau mis Rhagfyr cynhaliwyd ein cinio Nadolig cyntaf yng Nghlwb Rygbi Llambed. Ar ôl bwyd blasus cawsom ychydig o wobrau, tystysgrifau ac anrhegion doniol. Da iawn i bawb a wnaeth ennill gwobr a diolch yn fawr i'n Hysgrifennydd Cymdeithasol Nicola Williams am drefnu noson lwyddiannus a llawn hwyl yr ŵyl.

Nawr yn y flwyddyn newydd rydym nôl yng nghanol y bwrlwm yn ymarfer yn galed ac yn ailddechrau ein gemau yn y gynghrair. Ein gêm gyntaf yn 2019 oedd yn erbyn Aberaeron. Roedd yn gêm gyflym yn erbyn gwrthwynebwyr anodd. Fe ddechreuon nhw'n gryf a pharau i chwarae'n gywir a gyda disgyblaeth arbennig i ennill y gêm yn gyffyrddus. Llongyfarchiadau i Carwen Richards ar gael ei henwi'n chwaraewr y gêm ac i Gwawr Bowen am gael ei dewis yn chwaraewr y capten. Rydym yn gobeithio y bydd 2019 yn golygu tyfu ein cyfeillgarwch a chysylltiadau gyda phêl-rwyd Ceredigion trwy gynghrair Ceredigion, gemau cyfeillgar a gemau elusennol. Blwyddyn Newydd Dda!

Ymarfer bob nos Iau yng Nghanolfan Hamdden Llambed am 7yh – cyfle i fenywod o bob gallu, profiad ac oedran fwynhau pêl-rwyd.

Cymdeithas Hanes

Dr James January-McCann oedd y siaradwr gwadd yng nghyfarfod mis Ionawr, a thestun ei ddarlith oedd 'Casglu Enwau Hanesyddol Cymraeg'. Mae'n gweithio i

Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn y Llyfrgell Genedlaethol, ac ef yw'r Swyddog Enwau Lleoedd, sy'n gyfrifol am gasglu, cofnodi a chreu mynegai swyddogol o enwau hanesyddol a ddefnyddid cyn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Dyfarnodd Llywodraeth Cymru yn 2016 fod angen gwneud y gwaith yma, gan fod cymaint o enwau'n diflannu am amryw resymau, - e.e. enwau Saesneg yn cael eu rhoi ar lefydd, a'r rheiny'n hollol amherthnasol i'r enw oedd yn bodoli cynt, a cheisir dwyn perswâd ar berchnogion newydd i ymwrthod â gwneud hyn.

Pwrpas y rhestr yw creu ffynhonnell ganolog o enwau hanesyddol; codi ymwybyddiaeth o werth enwau hanesyddol lleol, a chynorthwyo'r cyrff sy'n gwneud penderfyniadau parthed enwi adeiladau ac ati. Cyflawnir hyn drwy'r Comisiwn Brenhinol a chyrff eraill. Mae yna'n agos i 350,000 o enwau eisoes ar y safle, a chyfeiriodd Dr McCann at arolwg Edward Llwyd yn yr ail ganrif ar bymtheg, a gofnododd 5,000 o enwau. Gellir ymweld â'r safle ar y we: "enwauleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk" os am ddysgu rhagor.

Diolchodd y Cadeirydd i Dr McCann am noson ddiddorol iawn. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth 19 Chwefror, am 7.30yh yn Hen Neuadd y Brifysgol, pan fydd Ross Cook yn siarad am 'Hanes mewn Cartrefi'. Croeso cynnes i bawb; £2 i'r rhai nad ydynt yn aelodau.

Cymorth Cristnogol

Braf oedd gweld cynulliad teilwng iawn wedi dod ynghyd i Eglwys San Pedr er gwaetha'r tywydd garw i ddigwyddiad blynyddol Cymorth

Llanbedr Pont Steffan



Adran yr Urdd Llambled yn perfformio yng nghyngerdd Llwybrau Robert Arwyn.



Adran yr Urdd Llambled yn mwynhau yng nghwis y Sir

Cristnogol sef Carol, Cerdd a Chân. Croesawyd pawb yn gynnes gan y Parch Jenny Kimber a darllenodd neges oddi wrth y Ficer newydd y Parch Ddr Marc Rowlands yn ymddiheuro ei fod yn methu bod yn bresennol. Pleser oedd cael cwmni Ben Lake ein haelod Seneddol, Maer y dref a'i Chonsort - y Cynghorydd Ann Morgan a'i phriod Densil ynghyd â'r Cynghorydd Hag Harris, Cadeirydd Cyngor Ceredigion, a'i bartner Eiry.

Roedd yr Eglwys wedi ei haddurno yn drawiadol iawn a'r cyfan yn portreadu geni'r Iesu ym Methlehem.

O'r dechrau teimlwyd naws hyfryd y Nadolig wrth wrando ar eitemau o safon uchel gan Gôr Meibion Cwmann a'r Cylch, parti llefaru Sarn Helen, Kees Huysmans, Lowri Elen a Sara Elan. Hefyd mwynhawyd perfformiadau cloddiw gan Gôr Ysgol Dyffryn Cledlyn, y delynores Cerys Angharad ac Alwena Owen, enillwyr Cenedlaethol i gyd oedd yn ymddangos ar y noson arbennig hon am y tro cyntaf. Darllenwyd rhan o'r ysgrifur gan Elaine Davies ac Eira Price a chyhoeddwyd y carolau gan brif swyddogion Ysgol Bro Pedr sef Osian, Max, Mari Elen, Cari a Siencyn.

Diolchodd Twynog Davies, Cadeirydd y pwyllgor lleol i'r rhai oedd wedi cymryd rhan am noson wych, i Ficer a swyddogion San Pedr am bob cydweithrediad, i Elonwy Pugh Huysmans am ei gwasanaeth wrth yr organ yn flynyddol ers y cychwyn, i'r stiwardiaid wrth y drws ac i bawb am eu cefnogaeth. Llongyfarchodd Mair Richards, un o bileri Cymorth Cristnogol, ar ei phen-blwydd yn 90 oed a dangosodd werthfawrogiad iddi am ei chyfraniad hael iawn ac yn olaf ond nid y lleiaf diolchodd i Janet am drefnu'r noson a sicrhau gwasanaeth artistiaid lleol o fri. Codwyd y swm anrhydeddus o £750 tuag at Gymorth Cristnogol.

Cydymdeimlad

Estyynnir cydymdeimlad dwysaf

â'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli perthnasau yn ystod y misoedd diwethaf.

Oedfa Ganhwyllau

I orffen dathliadau'r Nadolig cynhaliwyd Oedfa Ganhwyllau yn Noddfa ar 7 Ionawr.

Roedd y capel wedi ei addurno yn drawiadol iawn a'r canhwylau yn creu naws o dawelwch hyfryd yn dilyn prysurdeb yr Ŵyl. Croesawyd pawb ac offrymwyd gweddi agoriadol gan ein Gweinidog y Parch D. Densil Morgan. Darllenwyd rhannau o'r Ysgrifur gan 17 o'r aelodau gan ddechrau gydag adnoddau o lyfr Eiseia yn rhagfynegi dyfodiad Crist a gorffen gydag adnoddau o efengyl Ioan wrth i ni gamu nôl a cheisio deall ystyr y cyfan. Hefyd mwynhawyd unawd swynol gan Sara Elan.

Diolchodd Alun i Ann am drefnu'r Oedfa ac am ei gwasanaeth wrth yr organ, i Llinos am ei chymorth gyda'r offer technegol, i'r chwiorydd am addurno'r capel, i'r rhai a gymerodd ran ac i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfraniadau at glefyd Parkinson.

Roedd pawb wedi derbyn bendith wrth gyd-addoli mewn oedfa arbennig iawn.

Gorymdaith Gŵyl Dewi

Byddwn yn cynnal yr Orymdaith eleni ddydd Llun, 4ydd o Fawrth a bydd plant ysgolion dalgylch Bro Pedr yn ymuno â Chyngor y Dref, Côr Cwmann a chymdeithasau Llanbedr. Byddwn yn cychwyn o gampws hŷn Ysgol Bro Pedr am 12.45. Bydd Emyr Lewis, cyn-chwaraewr rygbi i Gymru, yn ymuno â ni a gobeithio y bydd ein haelodau seneddol yn hefyd gan ddibynnu ar Brexit ac ati!

Trefnir paned a phice bach yn Neuadd Fictoria ar derfyn yr Orymdaith a chawn ganu gan Gôr Cwmann, eitemau gan yr ysgolion lleol a chyd-ganu hwyliog yn ogystal ag ambell anerchiad.

Os nad ydych yn gerddwyr dewch i ymuno â ni yn Neuadd Fictoria.

Byddai'r pwyllgor yn falch o dderbyn addewidion o bice bach ar gyfer y diwrnod. Cysylltwch â'n hysgrifennydd Meinir Evans meinirffosyffin@hotmail.co.uk

Cydymdeimlo

Yn ystod mis Rhagfyr fe gollwyd un o drigolion y dre ym mherson Mr David Lloyd [Jewellers]. Cydymdeimlir yn ddwys â'i briod Hannah a'i ferch Nerys yn eu colled. Bu'r angladd yn hollol breifat yn ôl ei ddymuniad.

Cydymdeimlo

Yn ystod mis Ionawr daeth y newyddion trist am golli Dan Jones, Penarth, Heol y Bryn, gŵr annwyl Irene, tad, tadcu a hen ddadcu annwyl iawn. Bu ei angladd yng Nghapel Carmel, Prengwyn ac yna daearwyd ei weddillion yn y fynwent. Cydymdeimlir â'r teulu yn eu galar.

Gwellhad Buan

Cofiw'n at Rhys Bebb Jones, Glynrhosyn sydd wedi bod yn anhwylyd yn ystod yr wythnosau diwethaf yma. Brysiwch wella Rhys.

70 oed

Pen blwydd hapus i Heddwyn Morgan, 77 Heol y Bont ar ddatlu ei phen-blwydd yn 70 oed yn ystod mis Ionawr – gobeithio eich bod wedi cael diwrnod i'w gofio.

Priodas

Ddiwedd 2018 priododd Natalie, merch hynaf David a Wendy Moore, Penbryn, Llanbedr a Jonathan, mab hynaf Roger ac Alison, Penlan, Caerfyrddin yng Nghapel Bronddeifi. Bu'r wledd yng Ngwesty'r Falcondale.

Dymuna Natalie a Jonathan ddiolch o galon am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas. Priodas hapus i'r ddau

ohonynt.

Cyngerdd

Cynhelir Noson gyda Bois y Gilfach yng Nghlwb Bowlio, Llambled nos Sadwrn, Mawrth 23ain. Bydd yr elw'n mynd tuag at brynu 'diffibriliwr' i'w roi tu allan i'r Clwb Bowlio a fydd at ddefnydd pawb yn y gymuned.

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
 - Symud celfi
 - Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd
- Trwydded i gario gwastraff
 - Wedi yswirio'n llawn

01570 481029

Lakefield, Llanybydder
SA40 9RL

Gŵyl Gwrw a Seidr Llambled



16/2/19 12 noon - 11pm

Neuadd y Celfyddydau, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Llambled

**Ystod eang o gwrw a seidr
Adloniant byw • Lluniaeth ar gael**

Mynediad £3
gan gynnwys gwyrdd arbennig

www.facebook.com/lampeterbeerandciderfestival
www.lampeterbeerfestival.co.uk



Neuadd Mileniwm Cellan a Neuadd yr Hafod Gorsgoch yw'r llefydd am ffilmiau yn ardal Papur Bro Clonc a dyma Gary Slaymaker i sôn am y ffilmiau a ddangosir yng Nghellan yn yr wythnosau nesaf:

15fed Chwefror - KING OF THIEVES

N'ôl yn Ebrill 2015, fe nath criw o ladron ddwygwyd gwerth £14 miliwn o emwaith o'r Hatton Garden Safe Deposit Company yn Llundain. Ar y pryd, hon odd y lladrad mwya yn hanes Lloegr; ond y peth nath ddala'r sylw odd ma criw o bensiynwyr odd yn gyfrifol am y jobyn. Ers hynny, ma na ddwy ffilm wedi ymddangos gyda'r stori yma'n ysbrydoliaeth - The Hatton Garden Job, a King of Thieves. O'r ddwy, King of Thieves sydd efallai'n cynnig y fwy o sbort. Ma na gast ardderchog yn perthyn iddi - Michael Caine, Ray Winstone, Michael Gambon a Tom Courtney. Ac er bod hi ddim wastod yn llwyddo i blethu hiwmor ysgafn a drama cynnil yn llwyddiannus, mae dal yn romp fach ddigon joli, gyda'r cymeriadau'n sbarco oddi ar ei gilydd yn ddifyr. Cymysgwch Last of the Summer Wine gyda'r Italian Job, a ma 'da chi syniad eitha da o beth gewch chi fan hyn. Falle bod y ffilm ei hunan bach yn saff ac yn gonfensiynol, ond y cast nerthol sy'n achub hon rhag bod yn ffilm fach ddigon cyffredin.

1af Mawrth - MISSION IMPOSSIBLE: FALLOUT

Y chweched bennod yn y gyfres Mission Impossible, a heb os, y gorau ohonyn nhw i gyd...hyd yn hyn. Y tro yma, mae Ethan Hunt (Tom Cruise) a'i griw yn cyd-weithio gyda'r CIA i atal terfysgwyr rhag ffrwydro bomiau niwclear mewn rhai o lefydd crefydd mwya'r byd. Fel arfer, d'ym'r plot mewn ffilm Mission Impossible ddim yn golygu rhyw lawer, achos y peth sy'n tynnu pobol nôl at y gyfres yw'r golygfeydd cyffro, a "stunts" rhyfeddol Cruise. A where teg, ma'r cyfarwyddwr, Chris McQuarrie wedi codi'r bar yn syfrdanol ar gyfer y bennod ddiweddar. Os unrhyw beth, mae'n dilyn fformiwla y ffilm ola, MI: Rogue Nation, o ran "pace" a gosod strwythur clir ar gyfer gwneud y gorau o allu Cruise, a chreu "set pieces" cyffrous sy'n cynyddu wrth i'r ffilm garlamu tuag at derfyn mawr gwyllt. Ers i'r ffilmie Bond fynd yn wannach ac yn wannach ar ôl Casino Royale, ma na le i ddadlau ma'r ffilmie Mission Impossible sydd bellach ar y brig fel yr esiamplau o'r ffilmiau sbiwyd/cyffro gorau mewn sinemâu. Bendant werth ei gweld; ond gafaelwch yn dynn yn eich cadeiriau; chi mewn am nosweth wyllt.

Mae drysau Neuadd Mileniwm Cellan yn agor am 7.15yh a'r ffilm yn dechrau am 7.45yh. Mynediad drwy rodd.

O'r Cyngorau Bro



Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan

Yn ystod cyfarfod cyllideb blynyddol Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan ar 17 Ionawr 2018, penderfynodd y cyngor i beidio â chodi'r praecept ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20. Mae hyn yn golygu y bydd yr incwm i'r cyngor o'r praecept yn aros yr un peth ar £41,000. Mae'r praecept wedi aros yr un peth ers 2013-14 yn dilyn gostyngiad yn 2012-13.

Bydd preswlydd band D yn parhau i dalu dim ond £45.59 y flwyddyn i Gyngor Tref Llanbedr Pont Steffan. Bydd y cyngor yn talu canran o gostau cynnal o'r arian wrth gefn.

Roedd yn orfodol i'r cyngor neilltuo cyllid ar gyfer talu lwfans o £150 i bob cynghorydd. Nid yw Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan erioed wedi talu lwfans ac eithrio lwfans y Maer (ar gyfer costau dyletswyddau sifig) a chostau allan o boced i gynghorwyr at fusnes swyddogol y cyngor, ond fel pob cyngor tref a chymuned yng Nghymru mae'n orfodol i dalu lwfans o £150 i bob cynghorydd oni bai eu bod yn gwrthod ei dderbyn yn swyddogol. Ac eithrio lwfans y Maer, mae Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan wedi penderfynu peidio talu unrhyw lwfansau eraill y mae hawl gan y cyngor i'w talu, ond nad yw'n orfodol iddo wneud hynny.

Yn unol ag argymhellion yr archwilydd mewnol, mae'r cyngor wedi penderfynu sefydlu cyfres o 'gronfeydd suddo' o fewn yr arian wrth gefn ar gyfer gwariant cyfalaf sylweddol yn y dyfodol. Er enghraifft, bydd canran o gostau adnewyddu'r offer chwarae newydd ym Mharc yr Orsedd yn cael ei rhoi yn y gronfa suddo bob blwyddyn yn seiliedig ar oes arfaethedig yr offer. Bydd hyn yn golygu bod arian ar gael i adnewyddu'r offer pan fydd angen gwneud hynny. Ni fydd y cronfeydd hyn yn golygu unrhyw newid i drethdalwyr, ond bydd yn gwneud cynllunio ar gyfer gwariant cyfalaf yn fwy tryloyw.



Does dim osgoi'r anhrefn a'r llanast yn Senedd San Steffan ar hyn o bryd. Mae'r awyrgylch wrth droedio'r coridorau yn brudd ac mae'n anodd gweld goleuni ym mhen draw'r twnnel tywyll yn sgil Brexit.

Yma yng Ngheredigion a gorllewin Cymru, does dim dwywaith ein bod ni wedi elwa o'r buddsoddiadau yr ydym wedi eu derbyn gan yr Undeb Ewropeaidd. Rhwng 2014 a 2020, bydd Cymru wedi derbyn dros £2 biliwn, ond unwaith y bydd y Deyrnas Unedig yn gadael, bydd mynediad at y cronfeydd ariannol hynny, wrth reswm, yn dod i ben.

Nod cyllid yr Undeb Ewropeaidd yw lleihau'r anghydraddoldeb economaidd sy'n bodoli rhwng gwledydd a rhanbarthau – y math o anghydbwysedd economaidd sy'n gweld ein pobl ifanc yn gorfod gadael i chwilio am waith ymhell o'u cynefin.

Addawodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y byddent yn disodli buddsoddiad yr Undeb Ewropeaidd gyda chronfa newydd ar ôl Brexit, dan y teitl "Cronfa Ffyniant Gyffredin".

Er gwaethaf yr addewidion i ymgynghori ar fanylion y gronfa cyn diwedd 2018, ry'n ni'n dal i aros am ragor o wybodaeth. Nid ydym yn gwybod faint o arian fydd yn y gronfa, sut bydd y cyllid yn cael ei rannu ar draws y Deyrnas Unedig, na phwy fydd yn gyfrifol am wario'r arian.

Dwi wedi holi a holi, yn ysgrifenedig ac yn y siambr, dros yr wythnosau a'r misoedd diwethaf am ragor o fanylion am y gronfa, ac am sicrwydd na fydd cefn gwlad Ceredigion ar ei cholled unwaith eto, dan law San Steffan, ond dwi'n dal i aros am atebion pendant.

Mae'n hollbwysig bod gan Gymru lais ynghylch ble a sut yr ydym yn buddsoddi yn ein gwlad, a bod y blaenoriaethau ar gyfer ein cenedl yn cael eu penderfynu yma yng Nghymru, ac nid yn Llundain. Byddaf yn parhau i godi fy llais yn San Steffan er mwyn sicrhau tegwch i gymunedau Ceredigion.

Os hoffech chi gysylltu â mi am unrhyw fater, mae croeso i chi ffonio fy swyddfa ar 01570 940333 neu e-bostio ben.lake.mp@parliament.uk



**ARWYN VOBÉ
ACCOUNTANCY LTD.**

ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen,
Rhydowen,
Llandysul,
Ceredigion.
SA44 4PY

❖ Cyfrifon Blynyddol ac Interim

❖ Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau

❖ Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW

❖ Cyflogau a CIS

❖ Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

**Ffoniwch ni ar
07557 448234
neu**

ebost arwyn@avaccountancy.cymru

Llanfair Clydogau

Noson Canu Carolau a Chawl

Fel y bydd pobl Llanfair yn gwybod mae grŵp bach o'r pentre wedi teithio o amgylch yn canu carolau ac yn dymuno Nadolig Llawen i'r plwyfolion bob blwyddyn ers blynyddoedd bellach. Y bwriad oedd codi arian at achosion da. Yn y blynyddoedd cynnar aeth yr arian tuag at adnewyddu'r neuadd ond ar ôl hynny mae'r arian wedi mynd at elusennau lleol a thramor. Yn ystod yr ugain mlynedd codwyd miloedd o bunnoedd. Eleni cafodd y pwyllgor syniad newydd i gael noson o ganu carolau a chaneuon Nadoligaidd yn y neuadd yng ngolau kannwyll, a dyna a gafwyd. Dewiswyd y caneuon gan Paula Barker a Dan Griffiths gyda Dan yn gwneud y trefniadau i'w hargraffu mewn llyfryn. Diolch i Paula am gyfeilio ac i Dan a Bill Fillery am arwain y noson. Yn ystod yr egwyl cafwyd cawl blasus wedi ei baratoi gan Joyce Dixon ac roedd llawer wedi dod â mins peis.



Pleser oedd cael cwmni plant Ysgol y Dderi a diolch i Mrs Heini, prifathrawes yr ysgol a rhieni'r plant am eu cefnogaeth. Yn ystod y noson cafodd y plant gyfle i ganu gyda'i gilydd a chafwyd unawd gan Beca. Pleser oedd cael gwranddo arnynt. Teimlad pawb oedd bod noson o'r fath yn un llwyddiannus iawn a oedd yn cynnwys pawb ac yn rhoi cyfle i bawb gymryd rhan. Roedd y neuadd yn orlawn ac roedd yn amlwg bod pawb wedi mwynhau. Mae'n siŵr y bydd hon yn dod yn noson o ddathlu yn flynyddol. Codwyd swm o £637 ac aeth y cyfan at apêl tsunami Indonesia. Diolch i bawb a gyfrannodd mor hael ac a helpodd mewn unrhyw ffordd i wneud y noson yn un mor llwyddiannus.

Parti Nadolig y Plant



Daeth llawer o blant ynghyd i fwynhau'r parti yn llawn gemau a bwyd blasus. Yng nghanol y dathlu cafwyd ymweliad gan Sion Corn gyda llawer o gyffro ymysg y plant. Diolch i'r Parch Bill Fillery am gwblhau'r dasg mor dda. Trefnwyd y cyfan gan Anwen Bell a Rhian Lewis Davies gyda rhai o ferched y pentre yn helpu.

Llongyfarchiadau

Hyfryd oedd clywed y newyddion am enedigaeth Ifan Dafydd ar Ragfyr 12fed, mab bach i Laura a Dafydd Jones, Llanfair House, Heol Llanfair, brawd bach i Beca. Estynnwn ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i'r teulu.

Dathliad Hanner Cant

Ar ddydd Sul olaf y flwyddyn cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn Eglwys Santes Fair, Llanfair i ddathlu hanner can mlynedd ers pan ordeiniwyd Y Parchedig Bill Fillery yn offeiriad yn Eglwys Cymru. Roedd cynulleidfia niferus wedi dod ynghyd yn cynnwys llawer o

eglwysi lleol lle bu Bill yn gwasanaethu. I ddangos pwysigrwydd yr achlysur daeth Canon Eileen i dalu teyrnged iddo ac i gymryd y rhannau arweiniol. Ar ôl y gwasanaeth roedd lluniaeth wedi ei pharatoi yn y neuadd er mwyn i bawb gael cyfle i gymdeithasu a rhannu storïau.



Cyflwynwyd anrheg i Bill gan Alan Leech ar ran yr eglwys, llun o'r ddwy eglwys gan Dan ac Aerwen Griffiths a blodau i Elizabeth, gan un o'r gwsteion o Abertawe. Mae'n siŵr fod Bill yn ddiolchgar i bawb a fu wrthi'n gwneud yr achlysur yn un mor gofiadwy iddo ef ac Elizabeth.

Rhodd y Loteri

Roedd pwyllgor y neuadd yn falch iawn o gael y newydd eu bod wedi derbyn swm o bron i ddeg mil oddi wrth y Gronfa Loteri Fawr at welliantau i du mewn a thu allan y Neuadd. Diolch i Alan am ei waith ynglŷn â hyn. Hefyd, ddechrau'r Hydref bu wrthi'n casglu gwybodaeth gan drigolion y pentre a'r bobol sy'n defnyddio'r neuadd am y math o weithgareddau yr hoffent eu gweld yn cael eu cynnal ac am y gwelliantau. Ar ôl cael y wybodaeth hon at ei gilydd gwnaethpwyd trefniadau i ddechrau dosbarthiadau 'Cadw'n Heini'. Ar ddydd Llun am 9.15 y.b. mae dosbarth cadw'n heini yn cael ei gynnal gan Debbie Wise. Ar nos Fawrth am 6 y.h. mae dosbarth 'Yoga' mwy addas i rai sydd efallai ddim wedi ei wneud o'r blaen ac ar ddydd Mercher am 11 y.b. mae dosbarth Yoga mwy cymhleth sy'n cael ei gynnal gan Jackie. Dewch i gymryd rhan a chael gweld pa un sydd yn addas i chi. Mae manylion ar bosteri sydd wedi'u dosbarthu ac ar gyfrif facebook Llanfair Clydogau.

Eisteddfod Ceredigion 2020

Ddechrau mis Ionawr cafwyd cyfarfod yn y neuadd i bobl Llanfair a Chellan i drafod a sefydlu pwyllgor lleol i wneud trefniadau i godi arian i gronfa Eisteddfod Ceredigion 2020 sydd i'w chynnal yn Nhregaron. Da oedd cael croesawu Arwel Jones i annerch y cyfarfod er mwyn rhoi gwybodaeth ynglŷn â beth a ddisgwylir oddi wrth y pwyllgor a phobl yr ardal gyda syniadau am sut i godi arian. Roedd yn galonddid mawr i gael 29 yn bresennol. Mae ardal Llanfair a Chellan yn gorffod codi £2000 tuag at gronfa'r Eisteddfod gyda phawb yn hyderus y byddwn yn cyrraedd y targed. Cymerwyd y cam cyntaf o drefnu pwyllgor gydag Eleri Davies, Pentre yn gadeirydd, Lilian Jones yn is-gadeirydd, Aerwen a Dan Griffiths yn ysgrifenyddion, ac Alwen Edwards yn drysorydd. Prif waith y pwyllgor yw trefnu digwyddiadau i godi arian a'r cyntaf yw Bore Coffi, Raffl a Chlonec gyda bwrdd yn gwerthu cacennau. Bydd hwn yw cael ei gynnal ddydd Sadwrn, Chwefror 23ain o 11.00 y.b. hyd 1.00 o'r gloch y.p. Dewch yn llun i'n cefnogi a mwynhau bore o gymdeithasu. Mynediad yn £2 a phlant am ddim.

Casglu Sbwriel

Am yr ail flwyddyn yn olynol penderfynwyd cael diwrnod werth ei gynnal i gasglu sbwriel o amgylch pentre Llanfair, o ardal y mynydd i lawr i'r cwm. Digwyddodd hyn ddydd Sul, Ionawr 27ain gan ddechrau am ddeg o'r gloch y bore, gyda phawb i gyrraedd y neuadd erbyn 11 o'r gloch i gael 'brunch'. Cafwyd gwledd o fwyd yn cynnwys amrywiaeth eang gyda dros hanner cant o bobl wedi troi allan. Diolch i Eleri, Joyce, Sally, Paula, Lesley, Laura a Pat a fu wrthi'n ddyfal yn paratoi, yn coginio ac yn clirio yn y gegin. Roedd yn ddiddorol clywed gan rai o'r casglwyr fod tua chwarter yn llai o sbwriel wedi ei gasglu eleni. Mae hyn yn galonogol dros ben ac yn dweud, gobeithio, bod pobl ein hardal ni yn mynd â'u sbwriel adre! Da iawn chi. Gobeithio, y flwyddyn nesaf na fydd dim sbwriel ar hyd y lle i'w gasglu. Diolch i Sally am fynd â'r sbwriel a gasglwyd i LAS yn Llanbed.

Drefach a Llanwenog



Sara Davies o flwyddyn 6 Ysgol Dyffryn Cledlyn a enillodd gystadleuaeth Cogurdd yr ysgol.

C.Ff.I. Llanwenog

Y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg oedd nesaf ar galendr y clwb. Daeth llwyddiant i'r clwb yn y maes hwn eleni eto. Braf oedd gweld aelodau o bob oedran yn llwyddo yn y gystadleuaeth. Dyma restr o'r canlyniadau. Dan 14: Cadeirydd - Lleucu Rees, 1af. Darllenwydd - Lleucu Rees, 1af. Llanwenog A - 2il. Dan 16: Siaradwr - Elin Davies, 2il; Cadeirydd - Hafwen Davies, 1af. Llanwenog A - 2il. Dan 21: Cadeirydd - Meirir Davies, 1af. Llanwenog yn 1af. Dan 26: Cadeirydd - Sioned Fflur, 3ydd. Ar ddiwedd y dydd daeth y clwb yn 2il.

Roedd pawb yn gyffrous iawn i fynd i Winter Wonderland yng Nghaerfyrddin. Diolch byth, daeth pawb adre' mewn un pishyn ar ôl bod ar yr iâ cyn galw yn McDonalds i gael rhywbeth bach i fwyta.

Aeth nifer dda ohonom i wyllo Panto Felin-fach a oedd yn dathlu ei ben-blwydd yn 50 oed. Roedd hi'n noson dda a phawb wedi mwynhau.

Roedd hi'n amser nawr i ymlacio a dathlu'r Nadolig. Buodd y clwb yn canu carolau o amgylch yr ardal a chodwyd dros £1,200, gyda'r arian yn cael ei rannu rhwng Ambiwylans Awyr Cymru a'r clwb. Diolch am bob cefnogaeth. Daeth aelodau a ffrindiau'r clwb ynghyd i gael cystadleuaeth dartiau yng Nghlwb Rygbi Llambled er mwyn ceisio ennill twrci ar gyfer dydd Nadolig a chodwyd £201 er cof am Mari Leisa.

Llongyfarchiadau i Luned Gwener a Doran ar eu priodas ddydd Gwener y 4ydd o Ionawr. Dymuniadau gorau i chi'ch dau.

Ar ôl ymlacio dros yr ŵyl, roedd hi'n amser dechrau cystadlu fel clwb yng nghwis y Sir. Aeth tri thîm o'r clwb. Diolch i Milwyn, Llywydd y Sir am drefnu'r cwis.

Yna, daeth rhai o aelodau CFFI Caerwedros i ymuno â ni i goginio Pancws blasus a chwarae gemau hwylus. Noson llawn sbri yn cymysgu gydag aelodau'r Sir.

Roedd hi'n amser i droi'n ôl



Fel ffermwr sy'n cynhyrchu ac yn cofnodi llaeth, cyflwynwyd y cwpanau a'r tystysgrifau uchod i Evan David Evans, Brynhogfaen gan gwmni Cenedlaethol Cofnodi Llaeth (NMR). Mae'r gwobrau yn cynnwys: 1af fel Ymgeisydd newydd; 2il am Arolwg o'r fuches; a dau 3ydd, y naill am gynnyrch y llaeth a'r llall am anner gyflo. Llongyfarchiadau mawr iddo.

at y Siarad Cyhoeddus, ond yn Gymraeg y tro hwn. Cafodd aelodau o'r clwb lwyddiant unwaith eto. Dyma ganlyniadau'r diwrnod: Dan 14: Cadeirydd - Ffion Davies, 3ydd. Llanwenog A yn 2il. Dan 16: Siaradwr - Sioned Davies, 2il. Diolchwydd - Osian Davies, 3ydd. Llanwenog B yn 3ydd. Dan 21: Siaradwr - Rhys Davies, 2il. Ar ddiwedd y dydd daeth y clwb yn 3ydd.

Aethom ar daith i'r Egin yng Nghaerfyrddin ynghyd â dau glwb arall sef Caerwedros a Phontsian. Roedd hi'n noson ddiddorol yn mynd o amgylch yr adeilad newydd sbon.

Ddiwedd mis Ionawr, aeth y clwb i nofio yng Nghoracles Cenarth.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r clwb neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth ewch i'r wefan: www.cffillanwenog.org.uk

Ysgol Dyffryn Cledlyn

Dymunwyd blwyddyn newydd dda a chroeso'n ôl i bawb i'r ysgol yn dilyn gwyliau'r Nadolig. Braf oedd cael croesawu disgyblion newydd i'r dosbarth Meithrin sef Jak, Sara, Harri, Phoenix a Quinn. Maent wedi ymgartrefu'n dda yn yr ysgol ac yn mwynhau ystod o brofiadau gyda'u ffrindiau bach newydd.

Buodd naw aelod o flwyddyn 6 yn dangos eu talentau artistig wrth fod yn rhan o brosiect celf cyffrous gyda Rhiannon Roberts yn nhref Llanbed. Cafwyd diwrnod prysur a chreadigol wrth iddynt baentio murlun ar y cyd â disgyblion ysgolion Bro Pedr, Carreg Hirfaen a'r Dderi. Bydd y murlun lliwgar, hardd yma yn cael ei arddangos yn y dref er mwyn croesawu pobl i Lanbed.

Diolch unwaith eto i Lleucu



Wedi rhoi bron iawn i drigain mlynedd o wasanaeth i Gapel Brynteg, mae David James Jones, Gorlandeg, wedi rhoi'r gorau i'w swydd fel Ysgrifennydd a Chyhoeddwr y Capel. Heb yn wybod iddo, trefnwyd tipyn o 'syrpreis' ar y Sul cyntaf ym mis Rhagfyr, a hynny drwy drefnu i Alwyn Humphreys a chriw ffilmio 'Prynhawn Da' ddod i gyflwyno plât 'Halen y Ddaear' a thusw hyfryd o flodau iddo yn ystod gwasanaeth y prynhawn. Hyfryd oedd ei weld ar sgrîn y teledu ddechrau mis Ionawr, a thystiodd eraill o aelodau'r capel ei fod yn llawn haeddu ei alw'n Halen y Ddaear.

Ar ran yr aelodau, cyflwynwyd llun o Gapel Brynteg o waith Robert Blainey i David James, a chyflwynwyd basgedaid o flodau i Mrs Mary Jones gan ferched bach Abertegan sef Angharad, Gwenllian a Fflur. Wedi'r oedfa, mwynhawyd gwledd o de yn y festri, wedi ei pharatoi gan Chwiorydd y Capel.

Mewn oedfa gymun ddiwedd y flwyddyn, etholwyd pump o aelodau'r capel yn ddiagoniaid newydd. Dymunwn yn dda i Lewis Davies, Cilmeri; Catrin Bellamy-Jones, Pantyrhendy; Heather Price, Penrhiwfer; Megan Jones, Rhandir, ac Yvonne Davies, Afallon, wrth iddynt ymgymryd â'r gwaith. Mae Megan Jones wedi bodloni cymryd swydd Ysgrifennydd a Chyhoeddwr.

sy'n parhau i ymweld â'r ysgol yn bythefnosol i addysgu sgiliau pêl a chwaraeon i flynyddoedd 1 a 2. Mae hefyd yn cymryd grwpiau o Gyfnod Allweddol 2 y tymor hwn. Mae'r plant wrth eu boddau a'u sgiliau yn amlwg wedi gwella.

Cynrychiolodd grŵp o blant cymysg blynyddoedd 5 a 6 yr ysgol yng nghystadleuaeth bêl-rwyd yr Urdd yn erbyn ysgolion cylch Llanbed yn ystod ein hail wythnos yn ôl. Chwaraeodd pob un ohonynt yn arbennig o dda gan ddod yn 2il.

Llongyfarchiadau gwresog hefyd i Sara Davies o flwyddyn 6 ar ei llwyddiant yng nghystadleuaeth Cogurdd yr ysgol. Da iawn hefyd i Nia Ayonadu am ddod yn 2il ac i Megan Davies am ennill y 3ydd wob. Roedd arogl persawrus y perlysiâu yn eu pesto yn llenwi'r neuadd. Diolch i Gill Jones am feirniadu ac i bawb am eu hymdrechion wrth baratoi ar gyfer y gystadleuaeth. Bydd Sara yn cynrychioli'r ysgol yng nghystadleuaeth Cogurdd Sir Ceredigion yn Ysgol Bro Teifi ym mis Chwefror.

Rydym yn falch iawn i ddymuno pob lwc i Elin Lloyd o flwyddyn 6 a fydd yn cael ei chyfweld gan Gwmni yr 'English Ballet' ym Birmingham yn fuan. Dyma gyrhaeddiad arbennig a thipyn o gamp i gyrraedd y cam yma o'r cyfweiliad. Profiad bythgofiadwy iddi!

Daeth cwmni 'Walk through

the Bible' i addysgu blynyddoedd 5 a 6 am y Beibl. Cafwyd gwersi diddorol ganddynt gan ddefnyddio symudiadau'r corff er mwyn cofio'r storïau. Diolch hefyd i Delor James, Eryl Jones a Heulyn Roderick am eu gwaith caled wrth greu ffilm diogelwch ar y we gyda phlant blynyddoedd 5 a 6 dros yr wythnosau diwethaf. Datblygwyd nifer o sgiliau TGCh newydd yn ogystal â thynnu sylw'r plant at bwysigrwydd bod yn ddiogel ar y we a sut i wneud hynny.

Ar ddiwedd y mis aeth blynyddoedd 3 a 4 ar daith breswyl i Langrannog. Cafodd pawb amser anhygoel wrth iddynt wib-gartio, marchogaeth, sgîo, dawnsio yn y disgo, nofio, beicio 'cwad' a neidio ar drampolin i enwi ond rhai o'r gweithgareddau anturus. Roedd pawb yn wên o glust i glust wrth gyrraedd yn ôl yn yr ysgol a rhannu eu profiadau er eu bod wedi blino'n lân. Diolch i Mr Ebbsworth a Miss Sirian am roi o'u hamser i ymuno â'r plant ar y daith.

Y Gymdeithas Hŷn

Dathlwyd ein Cinio Nadolig yng Ngwesty Glan-yr-afon, Talgarreg. Daeth 39 ynghyd a chroesawyd pawb gan Mary Thomas. Gofynnwyd i Eifion ddweud gras. Wedi pryd anhygoel o flasus, cawsom y dasg ddigon anodd o ddatrys posau wedi eu paratoi gan Pamala a diolch iddi am wneud.

Drefach a Llanwenog



Grŵp o blant cymysg blynyddoedd 5 a 6 Ysgol Dyffryn Cledlyn yng nghystadleuaeth bêl-rwyd cylch yr Urdd gan ddod yn 2il.



Disgyblion blynyddoedd 3 a 4 Ysgol Dyffryn Cledlyn ar daith breswyl i Langrannog.

Yvonne Davies ddaeth i'r brig. Diolchwyd i bawb a gyfrannodd tuag at y pryd blasus.

Dymunwyd pen-blwydd hapus i bawb a oedd yn dathlu yn ystod y mis a gwellhad buan i bawb a oedd yn yr ysbyty neu'n anhwylyd.

Diolchwyd i gwmni G&M am ein cludo.

Yna, ym mis Ionawr daeth ugain ohonom ynghyd yn Nrefach, gyda Mary Thomas yn y gadair. Cafwyd ymddiheuriad gan Elgan a Huw Davies, Ornant.

Dymunwyd gwellhad i Nanna Jones sydd yn yr ysbyty, hefyd i Elgan a Huw Davies.

Atgoffwyd ni ar ran Mary fod Dilwen George yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar y 30ain o fis Ionawr.

Llongyfarchwyd Gareth a Sulwen Lloyd, Ucheldir ar eu Priodas Aur ddechrau'r flwyddyn.

Cyfarchodd Mary ein gŵr gwadd sef y Parch Cen Llwyd a aeth â ni i Brengwyn yn stori'r gyn-awdures 'Hafau fy Mhlentynod'. Cawsom brynhawn i'w gofio a gorffennwyd gyda the a theisennau.

Diolchodd Mary i Cen am ein diddanu a hefyd i aelodau Seion am y te.

Bydd y cyfarfod nesaf eto yn Nrefach gyda'n gŵr gwadd, Mr David Cooper ar y 13eg Chwefror am 1:30y.p.

Gwellhad Buan

Gobeithio erbyn i Clonc ddod o'r wasg y bydd Mrs Jane Jones, Pwllbylwg yn gwella yn dilyn ei hanffawd ddiweddar adref. Cofion gorau atoch gan obeithio y cewch wellhad llwyr a buan.

Hefyd, treuliodd Gareth Davies, Maesglas gyfnod yn Ysbyty Glangwili yn dilyn anhwylder.

Gobeithio y byddwch eich dau yn well yn glou.

Ŵyr ac wyres newydd

Llongyfarchiadau i Caroline a Geraint Davies, Llysderi ar ddyfodiad ŵyr bach a Mrs Doreen Evans, Cartref Maesyfelin ar ddod

yn hen-famgu i Gruff Myrddin, mab bach i Siwan ac Emyr yn Llambod.

Hefyd, ar ddechrau'r flwyddyn daeth newyddion bod Gillian ac Emyr Jones, Meysydd wedi dod yn ddatcu a mamgu unwaith yn rhagor, ganwyd Noa Dafydd sef mab bach i Rhydian a Hayley a brawd bach i Mia.

Llongyfarchiadau hefyd i Gareth a Janet Jones, Cefnrhuddlan Uchaf ar ddyfodiad wyres fach newydd sef Lili Grug, merch fach i Dan a Catrin, yn Llanybydder a gor-wyres i Mrs Viria Jones, Gelli Deg.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Tony a Jennifer a'r teulu, Murmur y Nant ar golli tad a thadcu a oedd yn byw yn Llambod yn ystod y mis.

Eglwys Santes Gwenog

Cynhaliwyd Gwasanaeth Naw Llith a Charol ar Ragfyr 16eg o dan ofal yr aelodau a'r ieuencid gyda Pauline Roberts-Jones wrth yr organ. Roedd yn hyfryd cael mins peis a gwin y gaeaf i gloi'r prynhawn.

Bnawn Sul, Rhagfyr 30ain aeth dwsin o'r aelodau i Eglwys Llanfair Clydogau i gyd-ddathlu ar achlysur "Jiwbili Aur" y Parch Bill Fillery. Bu Bill yn Ficer arnom o 2003-2010 ac mae'n dal i gynnal gwasanaethau rheolaidd yn Eglwys Llanwenog. Llongyfarchiadau iddo ar gyrraedd y garreg filltir hon a phob iechyd iddo ef a'i briod Elizabeth i'r dyfodol.

Bu Sian, Ceri, Linden a Geraint yn canu gydag Eglwys i'r ardal yng ngwasanaeth Plygain y Ddeoniaeth yn Llanddewi Brefi ar Ionawr 6ed - braf gweld y traddodiad hwn yn dal ei dir.

Nos Wener Ionawr 18fed daeth tyrfa luosog ynghyd i fwynhau Noson Cwis, Caws a Gwin gyda Pauline wedi paratoi amrywiaeth o gwestiynau. Diolch i'r tîm buddugol, Bryan, David, Steve a Geraint am gyflwyno'r wobwr ariannol yn ôl i'r coffrau. Gwnaed elw o £185. Diolch

i'r cefnogwyr i gyd am gyfrannu bwyd a gwobrau raffl.

Llongyfarchiadau i Geraint a Caroline, Llysderi ar enedigaeth ŵyr Gruff Myrddin, ar Ragfyr 28ain - bachgen bach i Siwan ac Emyr a gor-ŵyr i Mrs Doreen Evans Maesyfelin.

Hefyd i Dan a Catrin, Maes y Grug, Llanybydder ar enedigaeth merch fach, Lili Grug, ar Ionawr 2il, gor-wyres i Mrs Viria Jones, Gelli Deg.

Clwb Cant - Rhagfyr: £15 Mary Thomas; £10 Margaret Thomas; £5 Euros Davies. Ionawr: £15 Beryl Lewin; £10 Janet Davies, £5 Margaret Griffiths.

Nos Wener Ebrill 26ain am 7.00yh bydd David Cooper yn traddodi'r ddarlith 'My life as a Cold War Warrior' - ei brofiadau personol o fyw a gweithio yn yr Almaen yn y 60au. Tocynnau £10 gan gynnwys bwyd a diod.

Ddydd Gwener, Mehefin 28ain rhwng 2y.p a 7 y.h cynhelir "Pnawn Pancws" yn yr Eglwys. Cewch glywed hanes yr Eglwys ac mi fydd drysau'r tŵr yn cael eu hagar i'r cyhoedd. Cyfle unigryw i ddringo'r grisau mewnol i gopa Tŵr yr Eglwys a chael gweld yr olygfa arbennig. Bydd cyfran o'r elw yn mynd at Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.

Corsgoch

Priodas Aur

Llongyfarchiadau i Lyn ac Audrey Phillips, Maes-y-garn a ddathlodd eu Priodas Aur ddechrau mis Rhagfyr. Gobeithio y gwnaethoch fwynhau'r dathlu.

Cydymdeimlo

Danfônwn ein cydymdeimlad llwyrat at Gwilym ac Eirwen a'r teulu, Gwynfryn yn eu profedigaeth o golli chwaer Gwilym sef Marged Davies o Ffostrasol.

Llanwnnen



Mae Gwenllian a Heledd Jenkins wedi cael eu dewis yn aelodau o garfan dan 18 y Sgarlets unwaith eto. Buon nhw'n chwarae yn nhwrnament y Rhanbarthau yn ddiweddar yn Heol Sardis a'r Sgarlets oedd yn fuddugol. Maent yn ymarfer tair gwaith yr wythnos yn Ysgol Maes y Gwendraeth ac yn gweithio'n galed iawn. Byddant yn dechrau'r gynghrair ranbarthol yn Chwefror pan fydd y Sgarlets yn wynebu RGC.

Cydymdeimlo

Yn ystod mis Rhagfyr fe glywyd am farwolaeth Gareth Rees, Hafod, Llanwnnen. Cydymdeimlir yn ddwys â'i briod Megan a'r plant - Teleri a Gareth a'r wyrion i gyd yn eu profedigaeth lem. Bu ei angladd yn Amlosgfa Parc Gwyn, Arberth.

Priodas Dda

Ddechrau 2019 unwyd mewn priodas Luned Mair, Pen-y-Nant a Dorian Thomas o Gellan yng nghapel Undodaidd Pantydefaid, Prengwyn. Llongyfarchiadau a hir oes i chwi eich dau.

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan.

Cegin Coedlannau

'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'

* Cacenau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Dantethion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045

Graham Jones

Gwasanaethau Cyfrifiaduron

- ★ Datrys Problemau a Trwsio
- ★ Ymweliadau Cartref
- ★ Cyfrifiaduron, Gliniaduron a
- ★ Pherifferolion Ar Werth
- ★ Gwasanaeth Dylunio Gwefan

Ffôn 01545 560776

neu 07715 740777

www.tynici.com

graham@tynici.com



Dawns WELSH GIFTS

Llanbedr Pont Steffan

COFRODDION A CHERDIAU CYMREIG
PERSONOL AC UNIGRYW WEDI EU
GWNEUD Â LLAW YN EIN GWEITHDY

DEWCH I YMWELD Â'N ADRAN BRIODASAU NEWYDD

01570 423884

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,

Heol Pontfaen, Llanbedr

Ffôn: 423300 Ffacs: 423223

mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol

Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur



Yswiriant tŷ/cynnwys

Tai Bwyta / Siopau

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

E-bost: carol@ejic.co.uk

Mae Eryl Jones Ymgynghorydd Yswiriant yn awdurdodedig ac yn rheoleddig gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

Cwrtnewydd

Priodas Aur

Ddechrau'r flwyddyn fe ddatlodd Gareth a Sulwen Lloyd, Ucheldir eu Priodas Aur. Gobeithio i chwi fwynhau'r dathliad - llongyfarchiadau ac iechyd da am flynyddoedd lawer eto.

Ymgartrefu

Ddiwedd 2018 fe ymgartrefodd Dannie Harries yng Nghartref Hafandeg yn Llanbedr. Gobeithio Dannie y byddwch yn cael iechyd gwell i'r dyfodol.

Yn yr Ysbyty

Gobeithio bod Mrs Nanna Jones, Garth yn teimlo'n well erbyn hyn gan ei bod yn yr ysbyty ers dechrau mis Ionawr.

Diolch

Dymuna Gareth a Sulwen Lloyd, Ucheldir ddiolch yn fawr i bawb am y llu o gardiau a'r rhoddion caredig a dderbyniwyd ar achlysur eu Priodas Aur yn ddiweddar.

Dyweddïad

Llongyfarchiadau i Rhian a Tommy, 2 Yr Hen Ysgol, ar eu dyweddïad.

70 oed

Pen-blwydd hapus i Pamala Davies, 4 Heol y Bryn yn 70 oed – iechyd da i'r dyfodol.

Cydymdeimlo

Danfônwn ein cydymdeimlad llwyraf â Mrs Kate Davies a'r teulu, Tynfron yn dilyn marwolaeth ei chwaer Marged yn Ffostrasol.

Cellan

Wyres Newydd

Llongyfarchiadau i Alun a Marian, Llwynifan ar enedigaeth eu hwyrer fach, Martha Grug. Merch fach i Rhydian a Carys.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu a ffrindiau Mrs Mary Jones, Hafan a fu farw yn ysbyty Glangwili ym mis Rhagfyr. Bu ei hangladd yn Eglwys Cellan – lle oedd yn achos iawn i'w chalon.

Hefyd cydymdeimlir â theulu a ffrindiau Mrs Joan Vionee, Tegfan a fu farw yn ysbyty Bronglais ddiwedd y flwyddyn.

Cydymdeimlwn â Tony Adams a'r teulu, 1 Tre Cynon yn dilyn marwolaeth sydyn ei fam Iola Adams a oedd yn byw yn Llanbedr.

Ar wellhad

Erbyn hyn mae Andrew Williams, Cnwc y Fallen yn gwella yn dilyn ei lawdriniaeth i'w ben-glin ddechrau mis Rhagfyr yn ysbyty Bronglais.

Llanllwni



Disgyblion Cyfnod Sylfaen Ysgol Llanllwni ar ymweliad â'r Co-op yn Llanbedr.

Ysgol Llanllwni

Cawsom Ffair Nadolig hwylus iawn ddechrau mis Rhagfyr. Pwyllgor Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r ysgol ynghyd â'r Ysgol Feithrin bu'n trefnu'r digwyddiad. Roedd yna nifer o stondinau amrywiol, gweithgareddau i'r plant a lluniaeth. Daeth Siôn Corn i ymweld â'r plant a chanodd y plant garolau yn swynol gyda Mrs. Bethan Hopkins-Jones yn cyfeilio. Llywydd y dydd oedd Mr. a'r Parch Eileen Davies, Gwndwn a diolchwn iddynt am eu rhodd hael ac am araith ddiddorol. Diolch i bawb a wnaeth gyfrannu a helpu er mwyn cael diwrnod llwyddiannus.

Bu'r Adran Iau ar ymweliad â Judge's Lodging ym Mhowys, sef tŷ o Oes Fictoria. Buont yn dysgu am draddodiadau Nadoligaidd yn ystod y cyfnod a gwneud gweithgareddau ymarferol. Roedd yn ymweliad addysgiadol a diddorol.

Yn ein sesiynau Urdd rydym wedi cael sesiwn o chwarae "Tipit", addurno cacennau, gwneud gweithgareddau celf Nadoligaidd a chanu carolau yn Sainsbury's Llanbedr. Diolch i'r archfarchnad am fodloni i ni ganu carolau yno am awr. Y tymor yma rydym wedi cael gemau a chwis.

Hoffem ddiolch i Gwmni Statkraft am eu rhodd ariannol er mwyn tarmacio iard yr ysgol. Mae llawer o waith hefyd wedi ei wneud y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol yn ddiweddar a diolch i bawb am eu cymorth.

Ar ddiwrnod gwisgo siwmperi Nadolig casglwyd £64 tuag at elusen Achub y Plant.

Thema'r Cyfnod Sylfaen y tymor yma yw "Archfarchnad" felly aethom ar ymweliad â Co-op yn Llanbedr gan gael ein tywys o amgylch y siop a chael cyfle i ofyn cwestiynau. Diolch i'r rheolwr a'r staff am y croeso a gawsom.

Thema'r Adran Iau yw "Arwyr a Dihirod" ac rydym wrthi'n astudio pobl enwog mewn hanes.

Rydym yn ddiolchgar i Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau'r ysgol am ariannu'r leino

a'r carped newydd yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r Adran Iau wedi dechrau ar brosiect cyffrous iawn. Byddant yn dylunio ac yn creu car rasio ac yna yn cystadlu yn erbyn wyth o ysgolion lleol eraill yn ystod tymor yr haf. Yn gyntaf roedd rhaid i bob ysgol greu logo. Cyfuniad o logo Elan ac Iestyn gafodd ei ddewis i gynrychioli Ysgol Llanllwni. Llongyfarchiadau mawr iddynt am i'w logo ddod yn fuddugol o'r holl ysgolion a dyma'r logo fydd yn hyrwyddo'r prosiect.

Bu wyth o blant yn cystadlu yng nghystadleuaeth Cogurdd yr Urdd yn yr ysgol. Llongyfarchiadau i Elan am ddod yn gyntaf, Siôn yn ail ac Iestyn yn drydydd. Pob lwc i Elan a fydd yn mynd ymlaen i'r rownd nesa.

Cydymdeimlwn â Mrs. Siân Harris ar golli ei thad, sef Mr. Peter Walters, Wernen Fach yn ddiweddar ar ôl salwch byr. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu colled.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol - Mis Rhagfyr:- 1af - £50 – Helen Roberts, Llanwnnen; 2il - £40 – Gareth Davies, 1 Maes y Berllan; 3ydd - £30 – Ken Howells, Gwarallt; 4ydd - £20 – Mr. Gareth Jones, Prifathro Ysgol Llanllwni; 5ed - £10 – Geraint Lloyd-Davies, Maescrugiau; 6ed - £5 - Rose Millership, Glyn, Alltlyblaca. Mis Ionawr:- 1af - £10 – Caio Benson, Arfron, Llanybydder; 2il - £5 – James Davies, Brynheog, Llanllwni; 3ydd - £5 - Rose Millership, Glyn, Alltlyblaca.

Diolch

Dymuna Gwen Wernenfach a'r teulu ddiolch yn gynnes i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad mewn gair a gweithred ac am y caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Peter.

C.Ff.I. Llanllwni

Croeso i rifyn cyntaf y flwyddyn gyda ni Ffermwyr Ifanc Llanllwni gan obeithio eich bod chi i gyd wedi cael Nadolig Da a Blwyddyn Newydd Dda a'ch bod chi heb stwffio gormod.



Elan a enillodd gystadleuaeth Cogurdd Ysgol Llanllwni.



Elan ac Iestyn, Ysgol Llanllwni gyda'u logo buddugol ar gyfer prosiect creu car rasio.



Aelodau timoedd Siarad Cyhoeddus Cymraeg CFfi Llanllwni.

Yn ystod mis Rhagfyr buom ni fel aelodau yn brysur iawn yn canu carolau, yn mwynhau sgelfrio iâ ac yn gwylio Panto blynyddol Felin-fach.

Uchafbwynt mis Rhagfyr i ni yw'r canu carolau oherwydd mae'n hyfryd gweld cymaint o aelodau ein clwb allan yn y gwynt a'r glaw yn ein "high vis" yn canu o ddrws i ddrws gyda'r bwriad o godi cymaint o arian ag sy'n bosib i elusen haeddiannol. Eleni dros y ddwy noson cododd y clwb £1,421.11 sy'n swm ardderchog a chafodd ei drosglwyddo i'r elusen Paul Sartori sef elusen sy'n cynnig gofal a chyngor arbenigol i'r rhai sy'n dioddef o unrhyw salwch sy'n cyfyngu ar eu bywyd. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb a roddodd tuag at yr achos haeddiannol pan fuom yn cnocio ar eich drysau (er efallai nad oedd y canu yn berffaith ar bob achlysur!).

Hefyd erbyn hyn rydym wedi cynnal ein noson o gyflwyno sieciau lle cafodd 4 siec eu trosglwyddo i wahanol elusennau. Cafodd arian y Sioe Flynyddol ei rannu rhwng Epilepsy Action ac Uned Gofal Cancr y Fron, Ysbyty'r Tywysog Phillip a derbyniodd y ddwy elusen siec o £1561.14 yr un. Trosglwyddwyd £1,421.11 i elusen Paul Sartori o ganlyniad i'r canu carolau a chafodd £200 ei roi i Hospis Skanda Vale am adael inni ymweld â'r lle pan oeddem ar ein Taith Tractorau nôl ym mis Medi llynedd. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r holl elusennau am fod yn rhan o'n noson ac am fod mor barod i roi cyflwyniad inni am y gwaith y maent yn ei wneud a sut mae'r arian a godwyd gennym yn mynd i fod o fudd iddynt.

Hefyd yn ystod y noson honno cafodd yr aelodau a oedd wedi cwblhau'r dystysgrif cymorth cyntaf eu dystysgrifau a hoffwn ddiolch i Mihangel Morgan am gydlynw'r cynllun. Digwyddiad arall sydd bellach wedi mynd heibio yw'r Gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg a gynhaliwyd Ddydd

Sadwrn y 25ain o Ionawr yn Ysgol Nantgaredig. Cafodd y clwb ei gynrychioli gan Dîm yn yr adran Iau, yr Adran Ganol a Thîm Hŷn, gyda Thîm yr Adran Ganol yn dod yn yr ail safle.

Wel, dyna'r cyfan sydd gyda ni ar eich cyfer am y rhifyn yma. Os ydych chwant wâc fach ym mis Chwefror mae cystadleuaeth yr Hanner Awr Adloniant yn cael ei chynnal yn Neuadd y Gwendraeth o Nos Lun y 25ain o Chwefror i Nos Fercher y 28ain o Chwefror ac os ydych am weld y gorau bydd y clwb yn perfformio ei Hanner Awr Adloniant ar y noson olaf sef y nos Fercher.

Cydymdeimlo

Yn dawel ar ddydd San Steffan hunodd Mair Jones, Brynsiriol [gynt o Nanthendre] yn Ysbyty Glangwili. Cydymdeimlwn yn ddwys â'i theulu i gyd yn eu galar o golli mam, mamgu a hen famgu.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Gwen Walters, Wern Fach ar golli ei phriod Peter a thad annwyl Sian, Arwel a'r diweddar Dorian. Roedd yn ddatcu ac yn hen ddatcu gofalus a thyner hefyd. Bu ei angladd yn breifat yng Nghapel Nonni yn ystod y mis.

Cyfrwl o Farddoniaeth

Cynhelir lansiad 'Myfyrdodau Pysgotwr', cyfrwl o farddoniaeth y diweddar Hybarch J Sam Jones yn Ystafell yr Eglwys, Llanllwni nos Fawrth, Chwefror 12fed am 7.30y.h. Croeso cynnes i bawb.

Eglwys Sant Luc Llanllwni

Clwb 100 mis Rhagfyr 2018: 1. Keith a Meinir Evans (99) 2. Janet Howells (94) 3. Mair Williams (31) 4. Derek Tucker (129) 5. Carol Evans (110) 6. Jane Lloyd (32). Clwb 100 mis Ionawr: 1. Ann Gibby (36) 2. Louise Craven (143) 3. Heather Jones (56). Diolch am y gefnogaeth.

Undeb y Mamau

Bu Mr. David Thorne yn siarad â'r aelodau ym mis Ionawr. Cafwyd orig ddifys yn gwrando ar ei anerchiad yn

olrhain hanes y gair meddyg. Mae'r enw i'w gael mewn enwau lleoedd a chaeau yn Sir Gâr, ac efallai a chysylltiad â Meddygon Myddfai. Arweiniodd hyn at fêl, a'i ddefnydd fel antiseptig wrth drin clwyfau flynyddoedd yn ôl. Diolch yn fawr i Mr. Thorne.

Mae wedi bod yn adeg brysur i'r aelodau yn ddiweddar. Aeth parti o gantorion i gymryd rhan yn y Blygain flynyddol, eleni yn Llanddewi Brefi. Roedd y gwasanaeth dan ofal Canon PH. Wyn, ac roedd naws arbennig yn yr Eglwys. Bu pedwar parti yn cymryd rhan, a chafwyd te blasus yn y neuadd. Diolch i'r rhai fu'n paratoi.

Ar Ionawr 12fed, roedd hi'n ddiwrnod Calan Hen. Yn ôl yr arfer aeth parti o Eglwys Sant Luc, yn blant ac oedolion i gymryd rhan. Diolch i bawb wnaeth yr ymdrech i gadw'r Wyl yn fyw ac yn iach.

Llongyfarchwn ein cyn-Ficer y Parch Bill Fillery ar ddathlu 50 mlynedd ers ei ordeinio yn Eglwys Gadeiriol Aberhonddu. Bu gwasanaeth o ddathlu yn Eglwys Llanfair Clydogau ar Ragfyr 30ain. Dymunwn yn dda iddo ef a'i wraig i'r dyfodol, a diolch am ei wasanaeth a'i ofal, sy'n dal i barhau drosom ni yn Llanllwni.

Cylch Meithrin Llanllwni

Hoffwn groesawu Henry, Sara a Jack sydd wedi dechrau gyda ni yng Nghylch Meithrin Llanllwni. Gobeithio eich bod wedi setlo ac yn mwynhau yn ein plith. Thema Cylch Meithrin Llanllwni yw 'Y Byd Mawr'. Buom yn archwilio'r glôb a'i greu gyda phapur lliw. 'Rydym hefyd wedi trafod y gwahanol fathau o dywydd trwy storïau, caneuon a gemau'. 'Rydym yn mwynhau creu ein bwletin tywydd ein hunain gyda map o Gymru. Dathlu Dydd Santes Dwynwen oedd nesaf trwy greu cardiau a bisgedi siâp calon i roi i'n teuluoedd. Ar ddiwedd y mis, buom yn arsylwi ar adar bach yr ardd ac yn dysgu amdanynt megis Robin Goch, Titw Tomos

Las ayyb. Buom yn edrych ar eu lliwiau a sut i adnabod y gwahanol adar. Dros y mis nesaf byddwn yn parhau i edrych ar y tywydd a'r tymhorau, yn dathlu Blwyddyn Newydd Tsieineaidd ac yn paratoi ar gyfer Eisteddfod Cylch Meithrin Llanllwni sydd ar 20fed o Chwefror am 11yb. Mynediad yn £1 gyda chroeso cynnes i bawb. Os ydych am fwy o fanylion ynglŷn â Chylch Meithrin Llanllwni, cysylltwch â Bethan ar 07875409172 neu drwy e-bost - cylchmeithrinllanllwni@yahoo.co.uk. Cofiwch edrych ar ein tudalen Facebook am y newyddion diweddaraf - Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr i bawb sydd wedi eu cynorthwyo yn ddiweddar gydag amryw o bethau gwahanol er mwyn sicrhau bod y Cylch Meithrin yn medru darparu'r gofal a'r addysg o'r safon uchaf posibl. Os ydych awydd noson mas, cofiwch fod y cylch yn cynnal noson rasys parlwr ar nos Wener y 15fed o Chwefror yn nhafam y Talardd. Os ydych awydd prynu ceffyl - mae croeso i chi gysylltu ag aelod o'r pwyllgor.

Cylch Ti a Fi Llanllwni

Braf yw gweld cymaint o wynebau hen a newydd yn dod i Gylch Ti a Fi Llanllwni yn Ionawr. Maent wedi mwynhau crefft y Gaeaf, creu carden Santes Dwynwen a datblygu ymwybyddiaeth sensorï trwy adeiladu a theimlo. Dyma i chi amserlen mis Chwefror 05/02/19 - Dathlu Blwyddyn Newydd Tsieineaidd 12/02/19 - Sesiwn stori a chân gyda Menter Iaith Gorllewin Sir Gâr 19/02/19 - Rhannu syniadau a ryseitiau byrbrydau a bwyd i fabis a phlant 26/02/19 - HANNER TYMOR 05/03/19 - Crefft Gŵyl Ddewi.

Cynhelir Cylch Ti a Fi ar brynawniaid dydd Mawrth yn ystod y tymor, rhwng 1 a 3yp ar gampws yr ysgol gynradd. Pris y sesiwn yw £1.50 y teulu. Croeso i rieni, gofalwyr, mamgus a thadcu ddod gyda'u plant i fwynhau gwahanol weithgareddau a chyfle i gael sgwrs dros banded.



Faint ohonoch chi sy'n cofio siop y fferylllydd mwyn o Benygroes - Philip Lodwick ar y Stryd Fawr yn Llanbedd? Mae e'n gymwynaswr i bawb ac yn ŵr bonheddig a chyfeillgar. Mae e a'i wraig Ceris wedi ymgartrefu yng Nghwmnann ers blynedd bellach ac wedi cyfrannu'n fawr i'r gymuned.

Mae e'n siarad yn bwylllog gan ddangos diddordeb ym mhawb, ac er bod ei wallt coch wedi britho ychydig, cymeriad ffein y bu Philip erioed, heb air croes i'w ddweud am neb.

Ganwyd Philip yn fab i David Lynes a Margaret Mary Lodwick yng Nghastell Rhingyll (Gate Road) Penygroes ger Cross Hands. Roedd ei dad-cu yn cadw siop groser ym Mhenygroes pan oedd Gwaith Glo'r Emlyn yn ei anterth. Gwaith a gyflogai lawer iawn o bobl yr ardal hon.

Bu'n gyfnod anodd iawn i'r teulu ym 1956 pan fu farw tad Philip, ac yn fuan iawn symudodd y teulu i ganol Penygroes gyda Thomas, brawd Philip yn dilyn ôl traed ei dad a'i dad-cu gan redeg y siop a chadw'r post yn ddiweddarach.

Hudwyd Philip gan Gemeg fel pwnc yn Ysgol Ramadeg Llandeilo. Llwyddodd i gael prentisiaeth ran amser yn Boots Llandeilo wrth gwblhau ei lefel A yn yr ysgol. Bu'n astudio fel fferylllydd yng Ngholeg Caerdydd am bedair blynedd a dysgu sut i gymysgu meddyginiaeth yno, a chofia gael darlith am Feddygon Myddfai yn ogystal.

Dechreuodd ei yrfa fel fferylllydd am gyfnod o chwe mis yn Boots Rhydaman dan oruchwyliaeth Miss Eirian Jones o Lanbedd cyn symud i Lundain i weithio fel fferylllydd locwm. Bu'n byw yn Stretham gan wasanaethu am ddwy flynedd mewn ardaloedd poblog fel Brixton, Waterloo, Croydon, Leatherhead, Epsom a Dorking.

Roedd brawd ei dad yn fferylllydd yn Sutton a bu Philip yn byw tu fas i Sutton am gyfnod cyn i'r hiraeth am Gymru gydio ynddo.

Cafodd alwad i weithio yn Nhroedyrhiw ger Merthyr ac yno y bu am flwyddyn hapus. Cofia am y gymuned glos yno a'r diwydiant glo a'r ffatri Hoover yn cyflogi cymaint o bobl gan sicrhau fod tref Merthyr yn un llewyrchus iawn. Roedd bob math o siop yn Nhroedyrhiw hyd yn oed, a dim archfarchnad ar gyfyl y lle.

Mae ganddo atgofion melys am letya gyda Mr a Mrs Porter. Amser da!

Adeg Nadolig 1970, roedd rheolwr rhanbarthol Boots am benodi Cymro fel rheolwr yn siop Llanbedd, a dyma oedd dechrau cyswllt Philip Lodwick â'r ardal hon. Cafodd bedair blynedd hapus iawn yno gyda merched da yn gweithio iddo a'r siop yn gwerthu pethau amrywiol gan gynnwys hadau a nwyddau amaethyddol. Wedi'r cwbl, roedd Mart Llanbedd ond tafliaid carreg o'r siop.

Sefydlwyd y Fferyllfa arall yn Llanbedd nôl yn 1869 ar y Stryd Fawr, ac yn 1974, roedd y trydydd fferylllydd a fu yno mewn canrif - William Phillips yn dymuno rhoi'r gorau iddi. Felly, gwelodd Philip ei gyfle a mentro gan brynu'r adeilad a'r busnes. Dyma fagu gwreiddiau go iawn yn ei ardal fabwysiedig newydd a sefydlu fel dyn busnes llwyddiannus ac uchel ei barch.

Bu Philip a'i wraig Sandra yn addasu'r lle i fod yn Fferyllfa fodern a chofia iddyn nhw werthu bob math o bethau gan gynnwys diodydd yn y dyddiau cynnar. Roedd fffisig mewn potel yn dderbyniol iawn. Gall Philip ddwyn i gof yr holl feddyginiaethau cyntefig oedd ar gael a oedd yn enwau cyfarwydd i bawb yn y cyfnod.

Roedd Morris Evans Oil yn boblogaidd a llwyddodd Philip i archebu cyflenwad cyn iddynt ddod i ben, a derbyn y poteli ohonynt o Flaenau Ffestiniog ar fws Crossville. Roedd Thomas Hactus Llanelli yn dda i'r peswch a George's Pills 'for all illnesses'. Ond delio â chwmnïoedd fferyllol mawr fel Unichem a Vestric oedd yr arferiad cyfoes er mwyn sicrhau cysondeb a diogelwch.

Roedd Philip yn gredwr cryf bod ei gwsmeriaid yn hoffi sgwrs, ac yn aml iawn roedd clonc yn y fferyllfa yn eli'r galon ac yn falm i sawl dolur. Roedd gan Philip amser i bawb, yn glust i wrando ac yn ysgwydd i grio arni, a sgwrsiai'n glên â phawb a ofynnai am gyngor. Ond yn fwy na dim, roedd ganddo wên a roddai gysur cyson i bob un a boenai am unrhyw beth.

Yn y cyfnod fel fferylllydd ar y Stryd Fawr, roedd cydweithio effeithiol rhyngddo ef a'r doctoriaid lleol fel Dr Ambrose Lloyd, Dr John Williams,

Dr Lloyd Jones a Dr Rowena. Yn eu tro roedd fferyllfeydd Llanbedd yn agor am rai oriau ar ddydd Sul er mwyn gwasanaethu'r gymuned a dosrannu presgripsiynau yn ôl y galw. Arferai'r doctoriaid alw yn y tŷ gyda Philip wedi oriau gwaith hyd yn oed er mwyn sicrhau cyflenwad digonol o feddyginiaeth. Dyn felly oedd fferylllydd, yn byw yn y gymuned fel Philip, gan fynd y filltir ychwanegol honno er mwyn helpu eraill.

Roedd siop Philip Lodwick yn fwrwm o fywyd yn enwedig ar ddiwrnod Mart. Cofia am wragedd yn dod i'r dref ar fysiau o bentrefi cyfagos er mwyn gwneud eu siopa. Arferai Philip ddanfôn meddyginiaeth i bobl hefyd ar fws gan gydweithio ag eraill cymwynasgar er mwyn sicrhau bod pawb yn derbyn yr hyn oedd ei angen arnynt. Roedd milfeddygon hyd yn oed yn cydweithio ag ef, ac roedd wâc i ambell fferm er mwyn rhoi dos i greaduriaid yng nghwmni milfeddyg yn beth cyffredin i Philip.

Dymuna Philip ddangos ei werthfawrogiad o bob aelod staff a fu'n gweithio iddo dros y blyneddau. Mae Joanne, a fu'n gweinyddu iddo yn y siop yn dal i wneud y gwaith pwysig hwnnw gyda'r perchennog newydd.

Roedd Mrs N R Lewis a arferai redeg fferyllfa yn Stryd y Coleg, yn helpu mas yn siop Philip Lodwick o bryd i'w gilydd a alluogai iddo gael gwyliau nawr ac yn y man, a'r tro olaf iddi ei gynorthwyo oedd pan gafodd Philip brynhawn yn rhydd o'i waith i ail briodi. 1993 oedd hi, mewn seremoni dawel, unwyd y ddau, sef Philip a Ceris. Cofia llawer am Ceris yn rhedeg siop lyfrau ail law uwchben y Fferyllfa yn y Stryd Fawr.

Blyneddau da oedd y tri degawd a gafodd Philip yn ei Fferyllfa yn Llanbedd. Roedd y feddygfa ar y Cwmins, a Fferyllfa Philip Lodwick oedd yr un agosaf i'r man hwnnw, felly roedd y busnes yn llewyrchus iawn. Ond daeth tro ar fyd, symudodd y feddygfa gan ehangu. Er nad Fferyllfa Philip Lodwick oedd yr un agosaf i'r feddygfa newydd, roedd ei gwsmeriaid dal yn ffyddlon iddo ac yn parhau i fynychu ei siop yn y Stryd Fawr. Roedd hynny'n dweud llawer am ei natur ddiffuant a'r gwasanaeth dosbarth cyntaf a gawsant ganddo.

Gwerthodd Philip ei fusnes i Adrian Thomas o'r Hendy,

Pontarddulais, ac mae e'n wyneb cyfarwydd iawn i bawb yn y dref erbyn hyn, fel yr oedd Philip. Parhaodd Philip fel fferylllydd tan 2010 a bu'n gwneud gwaith locwm gan fwynhau gwasanaethu a chymdeithasu mewn ardaloedd fel Tregaron, Aberystwyth, Llanymddyfri, Llandysul a Chrymmych yn ôl yr angen.

Ond mae ymddeol wedi galluogi Philip a Ceris i ddechrau diddordebau newydd a chyfrannu'n helaeth i fywyd cymdeithasol yr ardal. Maen nhw'n gefnogol i bopeth ac yn mynychu pob digwyddiad lleol yng Nghwmnann a Llanbedd.

Bu Philip yn Llywydd Siambr Fasnach Llanbedd am ddwy flynedd, ond efallai ei fod yn fwy adnabyddus am fod yn gadeirydd Cymdeithas y Cerddwyr yn Llanbedd am ddeng mlynedd. Mae cerdded yn ddiddordeb sydd wedi tynnu Philip a Ceris at ei gilydd. Yn y cyfnod gyda Chymdeithas y Cerddwyr gwnaeth Philip ymchwil i'r llwybrau lleol a chyhoeddwyd hynny mewn llyfr tywys yn 2000.

Mae Philip yn mwynhau darllen ac mae'r ddau ohonyn nhw wrth eu bodd yn teithio, mynd ar wyliau a threulio amser yng nghwmni Megan a Jack, sef wyrion Ceris. Treulia Philip lawer o amser hefyd yn ymweld â'i frawd Thomas ym Mhenygroes.

Bu Philip a Ceris yn weithgar iawn ar bwyllgor Gefeillio Llanbedd gan drefnu teithiau i Ffrainc dros flynyddoedd maith a pharatoi gweithgareddau i'r ymwelwyr nôl yn Llanbedd.

Yn sgil eu cysylltiad â'r Siambr Fasnach, bu Ceris yn aelod gweithgar o bwyllgor Ffair Fwyd Llanbedd, a Philip yn drysorydd Cymdeithas Hanes ac Amgueddfa Llanbedd. Er mai eglwyswraig ffyddlon yw Ceris, mae'r achos yn Shiloh Llanbedd yn agos iawn at galon Philip.

Pobl brysur, hyd yn oed yn eu hymddeoliad a chymwynaswyr gwerthfawr a hael yn y gymuned. Er nad yw Philip yn gweithio fel fferylllydd bellach ers sawl blwyddyn, mae pobl yn ei holi ac yn ei ffonio am gyngor o bryd i'w gilydd. Llwyddodd ef i estyn cysur yn ei ffordd ddiymhongar ei hun. Dyna i chi Philip Lodwick.





Er mwynedd fu tywydd Rhagfyr ar y cyfan yr oedd cawod rewlyd yn ngwynebau'r 600 a redodd ar hyd y promenad tua diwedd ras heol ddeg cilometr Aberystwyth ar y 9fed o'r mis. Y cyntaf ohonynt i orffen y ras elusen flynyddol hon oedd Ollie Thorogood o glwb Aberystwyth mewn 34 munud a 43 eiliad ond cafwyd perfformiadau da hefyd gan y 24 o redwyr o Glwb Sarn Helen oedd yn eu plith - pump ohonynt yn gorffen dan y deugain munud sydd yn dipyn o linyr mesur ymhlith y rhedwyr 10 cilometr. Daeth Dylan Lewis yn 4ydd (35.12) a Ken Caulkett yn 10fed (36.12) gyda Glyn Price yn dilyn (38.34 ac yn ail yn nosbarth y dynion dros 50 oed) a George Eadon (39.07) yn gosod ei amser gorau am y pellter ychydig o flaen Meic Davies (39.23). Tony Hall oedd yr unig un i ennill ei ddosbarth (dynion dros 60 oed) mewn 45 munud a 16 eiliad, ond daeth gwobrau eraill i'r clwb hefyd - Tomos Morgans (40.05 ac yn ail yn nosbarth ieuencid y dynion,) Caryl Wyn Davies (42.03) yn 3ydd yn ras y menywod, Eleri Rivers yn 3ydd yn nosbarth y menywod dros 40 oed mewn record bersonol (44.31) a Delyth Crimes (48.43) yn 3ydd ymhlith y menywod dros 50 oed. Cafwyd ymdrechion glew hefyd gan Eilir Evans (41.41), Michael Taylor (45.05), Mitchell Readwin (46.20), Donna Davies (48.30), Matthew Walker (48.50), Pamela Carter (52.35), Jenny Caulkett (53.50), Nanette John (56.53), Nicola Davies (56.53), a Liz Pugh (58.20). Yr oedd dwy redwraig yn rhedeg dros y clwb am y tro cyntaf - Rebecca Doswell (59.52) a Sandra Dabner (61.01). Llongyfarchiadau hefyd i Graham Penn (61.42), Jane Holmes (61.52) ac Emma Gray (68.55).

Bu tipyn o gystadlu dros dymor y dathlu hefyd. Ar ŵyl San Steffan fe redodd David Thomas ras 5 milltir Glyn Nedd mewn 36 munud a 29 eiliad, ac yn ras 6 milltir Crymch ar yr un diwrnod gwnaeth Glyn Price yn lew i ddod yn 1af dros 50 oed mewn 37 munud a 30 eiliad - ychydig o flaen Simon Hall (yntau'n 3ydd yn y ras mewn 37.36). Daeth Tony Hall yn 1af yn nosbarth y dynion dros 60 hefyd (44.17), daeth Dee Jolly yn ail ymhlith y merched (40.11 ei hamser gorau dros y cwrs hwn) a daeth Huw Price yn 3ydd dros 50 oed gyda Mitchell Readwin (47.11) yn dilyn. Ar y 30ain o Ragfyr fe deithiodd saith aelod dros y ffin i redeg saith milltir a saith bryn yn Swydd Gaerloyw - ras lwybr fforest sy'n dwyn yr enw "The Seven Sins." Fe wnaeth pob un ohonynt ddigon i ennill maddeuant wrth i Dee Jolly ennill ras y merched (61 munud a 41 eiliad) ychydig o flaen Eleri Rivers (3ydd) ac wrth i Meic Davies (60.18) Carwyn Davies (60.38) a Mark Rivers (62.24) ddod yn 1af, 2il a 3ydd yn nosbarth y dynion dros 40 oed. Ar ben hynny daeth Simon Hall (57.21) yn 3ydd yn y ras gyfan a'i gyd aelod ifanc Dafydd Lloyd (57.24) yn 4ydd agos. Yna i ddod â'r hen flwyddyn i ben aeth dau aelod o'r clwb i'r ŵyl redeg enwog Nos Galan yn Aberpennar - George Eadon yn cwblhau'r ras 5 cilometr mewn 19 munud a 27 eiliad a'i ferch Maddie yn 5ed ferch yn y ras 600 metr i blant. Eleni yr oedd ras Nos Galan yn Rhydaman hefyd ac aeth dau aelod arall yno - David Thomas yn cwblhau'r 10 cilometr mewn 82 munud a 24 eiliad a Jane Holmes mewn 113 munud a 43 eiliad. Ar ddydd olaf y flwyddyn hefyd aeth nifer o aelodau i ras heol 10 cilometr weddol fryniog yn Llandysul - Gareth Hodgson yn gorffen mewn 41 munud a 37 eiliad, Eleri Rivers yn ennill ras y merched a Delyth Crimes yn ail ac ymdrechion teilwng hefyd gan Steffan Thomas (45.00), Matthew Walker (53.46), Enfys Needham Jones (55.43), Nicola Williams (56.10), Amy Edgell (61.12), Sandra Dabner, Rebecca Doswell ac Emma Gray.



Ar y 19eg o Ionawr ymunodd 8 o redwyr y clwb â'r 632 a redodd ras lwybr hanner marathon Coed y Brenin ac fe'u harweiniwyd dros y llinell gan Simon Hall (24ain mewn 1 awr 43 munud a 14 eiliad) gyda Carwyn Davies (30ain mewn 1.45.48) yn dilyn. Y nesaf ohonynt i orffen oedd Dee Jolly (ail yn ras y merched a 35ain yn y ras gyfan mewn 1.47.24). Dangosodd George Eadon fod ei nerth dros y pellterau hwy yn cynyddu (40fed mewn 1.48.58) gyda Nigel Davies (55fed mewn 1.52.09). Calondid oedd gweld fod Steven Holmes (2.10.0) wedi cael adferiad rhyfeddol wedi afiechyd prin a'i parlysoedd am gyfnod byr a chafwyd ymdrechion arbennig hefyd gan ei

wraig Jane a Nicola Davies.

Hefyd ar 19eg o Ionawr cafwyd perfformiadau cryf yn ras heol 10 cilometr Bae Colwyn - Ken Caulkett yn 18fed mewn 37 munud a 2 eiliad, Caryl Wyn Davies (41.21) yn 3ydd yn ras y merched, a Jenny Caulkett (56.02) yn brwydro'n dda i'r 18fed safle yn nosbarth y merched dros 35.

Ar yr 20fed o Ionawr cynhaliwyd dwy ras eleni eto ar hyd Llwybr Ystwyth yn Nhregaron. Braff oedd gweld Llywydd y Clwb yn cwblhau'r ras



5 cilometr mewn 29 munud a 18 eiliad. Yr oedd nifer o ferched y clwb yn y ras 10 cilometr - Eleri Rivers yn ail yn ras y merched mewn 44 munud a 37 eiliad, Siân Roberts Jones yn 5ed (49.11) o flaen Carol Rees (54.47), Nicola Williams (55.11), Liz Pugh (58.24), Nanette John (58.31), Sandra Drabner a Rebecca Doswell. Ymhlith y dynion llwyddodd Meic Davies i orffen yn 6ed (39.58) ychydig o flaen Aled Siôn Jones (40.16). Yn dilyn yr oedd Eilir Evans (42.18), Steffan Thomas (43.28), Mick Taylor (44.29) a Roger Mence (57.29).

Nid yw Ionawr yn gyflawn heb ras prawf amser Crymch ac eleni eto ar y 27ain o'r mis yr oedd gan glwb Sarn Helen 5 tîm o 5 rhedwr yn cystadlu yn erbyn dros 50 o dimau eraill. Ras yw hon dros gwrs 6 milltir dros ambell i riw serth yng nghyffiniau Crymch, pob rhedwr yn cychwyn rhyw 15 eiliad ar ôl y nesaf. Am yr ail flwyddyn yn olynol wedi cyfres hir o fuddugoliaethau bu rhaid i dîm cyntaf dynion y clwb ildio i ddau o glybiau Sir Benfro, ond daeth tîm y dynion dros 40 oed yn 1af yn ei ddosbarth (Carwyn Davies, Glyn Price, Meic Davies, Nigel Davies a Mark Rivers) a daeth tîm cymysg y clwb yn 1af yn nosbarth y timau cymysg. Fe fydd pob un o'r rhedwyr yn cofio'r dydd am ei wynt oer a chryf o'r gogledd.

Efallai bod eich banc ddim yn cynnig cyngor - ond dwi yn!

Ydy eich banc wedi atal cynnig cyngor ariannol i chi?

Os ydych wedi colli'r gwasanaeth hwn ac angen arweiniad proffesiynol, gallaf eich cynorthwyo!

Gyda thros 27 o flynyddoedd o brofiad, gallaf gynnig cyngor ar:

Cynilo a Buddsoddi :: Yswiriant a Diogelu :: Cynllunio ar gyfer ymddeol

Taliadau treth :: Rheoli Ystad :: Morgeisi ac Yswiriant Cartref

Cysylltwch â mi am gyngor ariannol uniongyrchol:

Richard Owen Jarman Dip CII, Cert CII(MP)

Wealth Management Partner, True Potential Wealth Management LLP

M: 07816 923618 E: richardjarman@tpllp.com

www.richardjarman.tpllp.com


 true potential
wealth management

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio symudol
ar gyfer pob achlysur:

Bar symudol ar gyfer
digwyddiadau allanol
boed yn fawr neu'n fach

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladdau
- Digwyddiadau Maes
- Peiriant Rhostio Mochyn ar gael



Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:

Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.



“Gŵyl Dewi yng Nghegin Clonc”

Hyfryd yw bod nôl eto yn y Gegin, yn wynebu blwyddyn newydd o gynhwysion a ryseitiai i'w rhannu â chi. Cam naturiol y mis yma oedd ymchwilio i gynnyrch Cymreig i'w cyfuno mewn ryseitiai Cymreig.

Rhaid cyfaddef mai Cawl a Phwddin Reis yw sylfaen bwydlen “Gŵyl Dewi” fel arfer, ond o bryd i'w gilydd mae'n braf croesawu rhywbeth newydd i'w roi ar y fwydlen. Rhowch gynnig ar y canlynol, a mwynhewch ddathliadau Gŵyl Dewi. Byddâ' i'n teithio i Lanelli ar Fawrth y 1af i rannu ryseitiai Cymreig â chi o gegin ‘Prynhawn Da’.

Pob hwyl,

Gareth

Cig Oen gyda stwffin Cymreig

- 1 lwyn o gig oen a'r asgwrn wedi ei dynnu
- 2 genhinen wedi'u sleisio
- ychydig o sinsir ffres wedi'i falu
- 1 ewin garlleg wedi'i falu
- 200 g o ham wedi'i dorri'n ddarnau
- ½ pwys Bara Lawr Sudd 1 lemnw ½ pwys o friwsion bara

Dull:

1. Meddalwch y cennin, y sinsir a'r garlleg mewn ychydig olew.
2. Cyfunwch â gweddill y cynhwysion, a'i flasgu â phapur a halen.
3. Llenwch y cig oen â'r stwffin. Rholiwch, a chlymchwch yn ei le.
4. Gosodwch mewn tun gydag ychydig o fenyn Cymreig drosodd.
5. Coginiwch ar 190 C, 375 F, Nwy 5 am 1 awr 10 munud.
6. Gweinwch gyda llysiau cawl.

Pwddin Afal a Mwyar Cymreig

- 1 pwys o afalau coginio, wedi eu plicio a'u sleisio
- 4 llwy fwrdd o ddŵr 2 lwy fwrdd o fêl Cymreig
- 2 owns o fenyn 1 llwy de o sinamon
- Llund llaw o fwyar 50 g o flawd plaen
- ¼ peint o laeth 25 g o siwgrwr mân
- 2 ŵy diferion fanila

Dull

1. Coginiwch yr afalau gyda'r dŵr, y sbeis a'r mêl nes yn feddal, yna i mewn â'r mwyar a'u meddalu. Gosodwch mewn dysgl wedi'i hiro
2. Toddwch y menyn mewn sosban, ac yn raddol ychwanegwch y blawd a'r llaeth i greu saws trwchus. Ychwanegwch y siwgrwr, y melynwy a'r fanila.
3. Curwch y gwyn wy, a phlygwch i'r saws. Arllwyswch dros y ffrwythau, a phobwch am tua 40 munud ar 190C, 375 F, Nwy 5.
4. Gweinwch gydag Iogwrt Cymreig.

Bara Gŵyl Dewi Mae hwn yn ffeffryn gyda ni adre

- 400 g o gennin 1 winwnsyn wedi ei dorri'n fân
- 1 owns o fenyn 4 owns o furum
- 800 g o flawd bara 3 llwy de o halen

Dull

1. Torrwch y cennin yn fân, a'u berwi nes yn dyner. Draeniwch, ond cadwch y dŵr
2. Meddalwch y winwnsyn
3. Pwyswch y cennin, yna ychwanegwch ddigon o'r dŵr i greu 1 pwys, a'i gyfuno mewn prosesydd bwyd.
4. Cymysgwch y blawd, burum, winwns, halen a'r piwrfi cennin i ffurfio toes.
5. Rhannwch rhwng 2 dun pwys. Gadewch mewn lle cynnes i godi am awr.
6. Pobwch am 30 munud ar 200C, 400F, Nwy 6
7. Gweinwch gyda menyn Cymreig

Gwledd Gŵyl Dewi yng Nghegin Gareth

Patrwm y dydd:

10.30 Cyrraedd am goffi a danteithion
11 – 1 Arddangosfa coginio – yn defnyddio cynnyrch Cymreig
1.15 ymlaen: Cinio Cymreig

Lleoliad: - Goedwig, Heol Llanwnnen, Llambod

Dyddiad: Dydd Sadwrn, 2 Mawrth: **Pris £20**

I archebu tocyn, ffoniwch 01570 422313



Elen Jones Ysgol Bro Pedr yn cipio'r wobwr gyntaf yng nghystadlaeth Cogurdd bl 7-9.



Fflur Meredith Ysgol Bro Pedr yn cipio'r wobwr gyntaf yng nghystadlaeth Cogurdd cynradd.



Rhai o ddosbarth 5 Llew yn dathlu Diwrnod Santes Dwynwen.

Campws Iau

Cafwyd gwasanaeth hyfryd i ddathlu'r Nadolig yng nghwmni disgyblion y Meithrin a'r Derbyn yn Neuadd yr ysgol a phleser oedd clywed y plant lleiaf yn canu cyfres o ganeuon adnabyddus ac ambell un newydd hefyd. Roedd pawb wrth eu boddau yn eu gwyllo'n perfformio mor frwdfrydig. Yn ogystal bu gweddill disgyblion y campws cynradd yn canu carolau traddodiadol a modern mewn gwasanaeth hyfryd yng Nghapel Soar a chafwyd datganiadau swynol gan bob dosbarth. Diolch i ddiagoniaid ac aelodau Capel Soar am gael defnyddio'r Capel ac yn arbennig i Mr a Mrs Alan a Sulwen Morgan am eu holl gymorth gyda'r trefniadau. Diolch i'r holl ddisgyblion a'r staff am eu gwaith caled. Bu côr yr ysgol yn brysur iawn hefyd yn canu i'r Ifanc o Galon, canu yn noson siopa hwyr y dref ac yng ngwasanaethau'r ysgol. Diolch yn fawr iddynt am eu hymroddiad ac yn arbennig i Miss Sandra Davies am gyfeilio.

Cafodd grŵp o ddisgyblion o flynyddoedd 5 a 6 gyfle arbennig i weithio gyda'r arlunydd Rhiannon Roberts i greu murlun o Groeso ac i ddathlu Cymreictod ar gyfer tref Llambod. Hyfryd hefyd oedd cael croesawu disgyblion o ysgolion y cylch atom. Bydd y murlun yn ymddangos cyn hir ar wal siop W D Lewis a'i fab yn y dref ac edrychwn ymlaen yn fawr at gael ei weld. Diolch i'r Maer Mrs Ann Morgan, Pwyllgor Gŵyl Dewi a'r holl noddwyr am gael bod yn rhan o'r cywaith cyffrous yma.

Fel rhan o'r thema “Archarwyr” bu disgyblion blynyddoedd 1 a 2 yn ymweld â'r Orsaf Dân ac Ambiwylans yn ddiweddar gan ddysgu enwau nifer o offer hanfodol yn ogystal ag am y gwaith pwysig y mae'r gweithwyr yn ei wneud. Diolch o galon am y croeso cynnes ac am roi o'ch amser prin - rydym yn gwerthfawrogi hyn yn fawr. Cafodd y disgyblion a'r staff dipyn o hwyl hefyd wrth wisgo fel archarwyr i ddod i'r ysgol gan gwblhau nifer o dasgau yn ymwneud â'u hoff gymeriadau yn ystod y dydd.

Bu deuddeg disgybl yn coginio cebabs blasus yng nghystadlaeth Cogurdd cynradd yn ddiweddar ac roedd yn bleser gweld y bwyd gorfonedig. Diolch o galon i Miss Mattie Evans am feirniadu a llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu ac yn arbennig i'r canlynol:- 1af Fflur Meredith, 2il Lowri Meles James Evans, 3ydd Caitlin Gately, Summer Howden a Marc Tattersall. Pob hwyl i Fflur Meredith yn y gystadlaeth Sirol.

Gwnaeth tîm pêl-rwyd yr ysgol fwynhau yng nghystadlaeth Cylch yr Urdd yn ddiweddar. Da iawn chi ferched a diolch yn fawr i Miss N Jones a



Charlie, Lowri, Ellie-Maie a Cai a fu'n cynrychioli Ysgol Bro Pedr yng Ngala Genedlaethol yr Urdd gan wella ar eu hamser personol a dod yn 4ydd yn y rhagras - da iawn chi.



Taylor, Kondrad, Cai a Dwylan o Ysgol Bro Pedr yn ennill cystadleuaeth Sirol Minecraft a drefnwyd gan CERED. Llongyfarchiadau fechgyn.

Gwenno o'r chweched am hyfforddi. Daliwch ati.

Cawsom newyddion gwych eleni eto wrth i ni glywed bod grŵp o fechgyn o flwyddyn 6 wedi ennill cystadleuaeth Minecraft Sirol - llongyfarchiadau mawr i chi fechgyn sef Taylor Lewis, Cai Allan, Dwylan Jenkins a Kondrad Syguda. Bydd Rhodri Francis o CERED yn dod i gyflwyno gwobr iddynt yn yr ysgol cyn hir sef tarian, talebau arian a gwersi arbenigol.

Bu disgyblion yr ysgol yn dathlu Diwrnod Santes Dwynwen drwy gwblhau amryw weithgareddau megis gwaith ysgrifennu, gwaith celf, coginio a dawnsio gwerin - diolch yn fawr i'r disgyblion a'r staff am eu brwdfrydedd. Bu tîm cyfnewid dull rhydd yr ysgol yn cystadlu yng ngala nofio genedlaethol yr Urdd a gwneud yn arbennig o dda gan wella ar eu hamser ers y Sir a dod yn bedwerydd agos yn y rhagras - tipyn o gamp ar lefel genedlaethol. Llongyfarchiadau mawr i Ellie-Maie Jones, Lowri Meles James Evans, Cai Allen a Charlie Condon - daliwch ati. Mae'r plant wrthi'n brysur yn paratoi ar gyfer Eisteddfod Gŵyl Ddewi yr ysgol a gynhelir ar 22 Chwefror. Cofiwch hefyd os ydych am gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd eleni bod angen i chi ddanfôn eich enw at Mrs Llinos Jones yn yr ysgol cyn 18 Chwefror.

Campws Hŷn

Cafwyd Gwasanaeth Carolau hyfryd i ddathlu'r Nadolig yn Eglwys Sant Pedr gyda disgyblion o flwyddyn 5 hyd at y chweched dosbarth yn cymryd rhan. Trosglwyddwyd gwir neges y Nadolig mewn modd hynaws ar lafar ac ar gân drwy berfformiadau o'r safon uchaf - canu swynol, llefaru deallus ac eglur ac eitemau offerynnol clodwiw. Diolch i'r Ficer a'r aelodau am gael defnyddio'r Eglwys, i'r holl ddisgyblion a gymerodd ran, i staff yr ysgol a fu'n cynorthwyo a diolch yn arbennig i Miss Eirian Jones am roi o'i hamser prin i ddod atom i hyfforddi.

Roedd safon cystadleuaeth Cogurdd blynyddoedd 7, 8 a 9 yn hynod uchel a da iawn i bawb a fu'n cystadlu - roedd yn bleser gweld eich gwaith. Llongyfarchiadau i'r canlynol :- 1af Elen Jones, 2il Ifan Meredith, 3ydd Martha Thomas a diolch yn fawr iawn i Miss Mattie Evans am feirniadu. Pob hwyl i Elen Jones ac Ifan Meredith yn y rownd Sirol.

Dathlwyd Diwrnod Santes Dwynwen drwy werthu rhosynnau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r diwrnod arbennig yma. Diolch i aelodau'r chweched sydd ar y Pwyllgor Cymreictod am drefnu.



Llongyfarchiadau mawr i Lisa Evans sy'n ddisgybl blwyddyn 12 ar ennill y wobr gyntaf yng Ngwobrau Arloesedd CBAC. Barnwyd mai ei gwaith Dylunio a Thechnoleg Tecstilau oedd y gwaith TGAU mwyaf arloesol yng Nghymru gyfan!

Creodd Lisa ffrog a ysbrydolwyd gan y 60au a gafodd ei dylunio drwy ddefnyddio CAD (dylunio drwy gymorth cyfrifiaduwr). Cynhyrchwyd y ffrog drwy dorri patrwm geometrig cywrair yn y ffabrig gan ddefnyddio peiriant laser. Mae'n ffrog amlwrpas sy'n ddelfrydol ar gyfer mynd ar wyliau dramor. Gellir

gwisgo'r ffrog dros wisg nofio wrth ymlacio ger y pwll ac yna gall haenen waelod gael ei hychwanegu gan drawsnewid y ffrog ar gyfer y nos.

Derbyniodd Lisa ei gwobr o £250 (a £150 i'r adran Dylunio a Thechnoleg) wrth y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams mewn seremoni wobrwyo yn y Senedd ym Mae Caerdydd ar Ragfyr y 5ed.

SiaraDwyR Newydd!!!

COLOFN Y DYSGWYR gan Gwyneth Davies

Blwyddyn Newydd Dda i chi! Wel wel, mae'r tywydd wedi bod yn oer iawn yn ystod mis Ionawr! Dyma hen greddau Cymreig i chi am y tywydd.

Arwyddion Glaw:

- Haul yn mynd i lawr dan gwmwl.
- Y gwartheg yn gorwedd yn agos at ei gilydd.
- Y wrennol yn hedfan yn isel.

Geirfa:

haul – sun
hedfan – to fly
cwmwl – cloud
defaid – sheep
gwartheg – cattle
mynydd – mountain
gwennol – swallow
gwyllnod – seagulls
tywyll – dark
sychu – dry
eglwyr – clear
tragywydd – ever
creddau – beliefs

Arwyddion Storm:

- Defaid yn dod i lawr o'r mynydd.
- Gwyllnod yn dod o'r môr i gyfeiriad y tir.

Hoffwn rannu hen rigwm â chi hefyd:

'Tywyll fynydd, eglur fôr
Fe ddaw sychu ar ei ôl.
Tywyll fôr, eglur fynydd
Ni cheir sychu yn dragwydd'.

Mae Valerie Wood yn byw yn Rhydcymerau. Mae hi wrth ei bodd yn dysgu siarad Cymraeg. Dyma ei hanes hi:

Fy nhaith fel Dysgwr Cymraeg

Cafodd fy ffrind gorau ei geni yn Aberystwyth ond ro'n ni'n dwy yn byw yn Lloegr. Ar ôl iddi hi ddysgu sut i yrru, aethon ni i Dregaron i ymweld â'i theulu hi. Dechreuais i felly ddysgu geiriau fel - Diolch yn fawr; Os gwelwch yn dda; Bore da a Nos da. Tua blwyddyn ar ôl hynny, symudais i i fyw i Gymru ac es i i Ddosbarth Cymraeg yn Llambod. Ro'n i'n meddwl baswn i'n trio dysgu siarad yr iaith a dw i wrthi o hyd! Dw i'n cofio meddwl ar y pryd - pan fydda i wedi dysgu'r amser presennol, y gorffennol a'r dyfodol, bydda i'n gallu siarad ychydig gyda phobl eraill.

Dechreuais i siarad yn Swyddfa Bost y pentref pan ro'n i'n mynd i brynu papur newyddion. Ro'n i'n ymweld â phobl eraill ac ro'n nhw'n fy helpu i ddarllen y papur lleol. I ddweud y gwir, weithiau, ro'n i'n panico oherwydd os ro'n i'n dweud rhywbeth yn Gymraeg, roedd pobl yn meddwl mod i'n rhugll!

Es i i ddigwyddiadau gyda dysgwyr eraill, ond, os oedden nhw'n fy neall i, doeddwn i ddim yn eu deall nhw bob amser. Es i at y meddyg un diwrnod. Eisteddais i i lawr yn yr ystafell aros am tua awr. Eisteddodd un ferch ar bwys fi a thrwy'r amser, ro'n i'n gallu cael sgwrs gyda hi. Yna dywedais i, 'Diolch am fy helpu' a dywedodd hi ei bod wedi mwynhau'r sgwrs a chwerthin gyda fi. Roeddwn i wrth fy modd!

Dechreuais fynd i'r eglwys leol. Nawr, gallwn ddechrau canu'r emynau yn Gymraeg a weithiau erbyn hyn, dw i'n gallu cymryd y gwasanaeth dwyieithog ar fy mhen fy hunan. Unwaith, gofynnodd rhywun i fi, 'Wyt ti'n meddwl yn Gymraeg?' Nawr dw i'n gallu ateb, 'Ydw, dw i'n meddwl yn Gymraeg - yn enwedig yn y car'. Erbyn hyn, dw i'n teimlo'n rhan o'r Gymdeithas leol oherwydd mod i'n trio dysgu Cymraeg! Mae fy nhaith i ddysgu Cymraeg yn cario ymlaen a dw innau'n mwynhau pob rhan ohoni.



Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llanbed
☎ 01570 422517 post@adve.co.uk



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyll, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349



HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Mwnici ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llanbed

☎ 01570 423135
☎ 07811917799 /
07968821035
✉ mwniciffwnci@hotmail.com

MIS y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Gwell yw canslo na chynnal?

Dw i'n sgrifennu hwn gan edrych trwy'r ffenest ar hewl Alltlyblaca a Llanwnnen. Mae yna haenen fach ysgafn o eira rhwng y tŷ a hi ... dim byd mawr, dim ond fel siwgr ar ben tarten gan gwc cybyddlyd.

Hyd y gwn i, does yna ddim llawer o eira yn unman yng Nghymru ond mae rhaglenni radio'n llawn o newyddion am ddigwyddiadau sydd wedi eu canslo ... noson lawen fan hyn, noson goffi fan draw a gwasanaethau capel ymhobman.

Efallai mai fi sy'n dychmygu ond mae yna sŵn brwdfrydedd mawr yn y negeseuon yma, bron fel petai'n well gan bobol ganslo na chynnal y digwyddiad. Ac efallai fod hynny, yn ei dro, yn rhan o ysbryd yr oes.

Weithiau, wrth gwrs, does dim dewis ond gohirio noson. Pan fydd yr eira wedi cyrraedd lefel y ffenest mae'n deg penderfynu bod bwrw ymlaen yn wirion. Ond, erbyn heddiw, does dim angen eira go iawn i ganslo, dim ond sôn amdano.

Ysgolion sy waetha'. Bob tro y bydd pluen eira, neu addewid fod un i ddod, mi fydd dwsinau o ysgolion yn cau a gwefannau'r cynghorau sir yn eu rhestru nhw. Bron na fydddech chi'n teimlo siom os na fyddai eich ysgol chi yn y tabl.

Ac mae yna elfen o fod eisio cyffro yn yr holl fusnes canslo yma. Mae canslo'n creu drama, mae'n gwneud ichi deimlo eich bod wedi gweithredu'n benderfynol dan bwysau. Mae'n fwy cyffrous na chynnal noson.

Yn achos yr ysgolion, rydan ni i gyd yn deall y rheolau sy'n gorfodi penaethiaid i gau – y canllawiau iechyd a diogelwch a'r ofn y gallech chi gael eich siwio pe bai plentyn yn anafu'i ben-glin neu fws ysgol yn mynd yn sownd.

Yr hyn sy'n rhyfedd ydi fod y canslo'n cynyddu wrth i amodau ac adnoddau wella. Mae bysys yn llawer gwell nag oedden nhw, mae ysgolion yn fwy clyd a chynnes a does dim rhaid i blant fynd allan i chwarae fel yn y dyddiau fu.

Mae digonedd o blant y ganrif ddiwetha' yn cofio'r cynnwrf o feddwl bod eira a rhew yn dod – cyfle i wneud dyn eira yng nghaeau'r ysgol neu gario dŵr o'r toilets er mwyn cael lle gwell i sgelfrio. Oedd gan fy nhad stori am gael ei gario adre o'r ysgol mewn sach ar gefn ei dad yntau ar ôl rhyw storm neu'i gilydd.

Mae gwynt a glaw yn gallu bod yn esgus da arall i ganslo. Ac, efallai, yn y dyfodol, wrth i'r byd gynhesu, y bydd gormod o haul yn dod yn rheswm arall. Mae hynny eisoes yn digwydd mewn rhannau o Awstralia, lle mae pobol eleni wedi cael rhybuddion i gadw'n glir o'r traethau.

Y darogan ydi y bydd tywydd eithafol yn digwydd yn fwy aml yn y dyfodol; mi fydd y gwyntoedd yn mynd yn gryfach, y glaw'n drymach, yr hafau'n boethach a'r eira yn llawer dyfnach. Os na fydd y moroedd wedi codi i ganslo'r cwbl lot.

Ond nid y tywydd go iawn ydi'r cwestiwn – mae yna ddigwyddiadau a thrychinebau gwirioneddol. Y broblem ydi ein hofn afresymol ni ohono a'n hawydd i ganslo pethau.

Er fod ffonau symudol a chyfryngau cymdeithasol a gwefannau'n golygu y gallwch chi gysylltu'n llawer haws â phobol, mae'r canslo'n mynd yn gynt.

Roedd yna rai o ddigwyddiadau heddiw wedi eu canslo echdoe am fod sôn am dywydd garw. Cyn bo hir, os bydd hogan neu hogyn y tywydd ar S4C yn edrych ychydig yn bryderus, mi fydd cyngherddau ar hyd a lled Cymru yn siŵr o gael eu dileu.

A ydi hyn yn arwydd dwfn fod ein bywyd cymdeithasol ni yn teneuo, ein bod ni'n llai awyddus i gynnal pethau ar y cyd?

Does gen i ddim ateb. A hynny am reswm syml. Mae'r frawddeg nesa' wedi cael ei chanslo – mae yna eira ar y ffordd.

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

**19 Stryd Fawr,
Llanbed**

Oriau Agor:
Mawrth - Sadwrn 12yb - 9yh
Sul - Llun - Ar Gau

Gwasanaethau Coed Llanbed



Gwêl-y-Coed, Cwmann
Llanbed, SA48 8EL
01570 422819

www.lampetertrees.co.uk

Cwmni teuluol all ddelio â
phob math o breblemau gyda choed.



Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewies.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



**COMPASS
OFFICE
SUPPLIES**

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llanbed, Heol Tregaron,
Llanbed.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

**CANOLFAN ADDURNO
AA**

A
Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allweddi a
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llangybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gâtiau a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

**WILLIAMS
& BOURNE**

CYFREITHWYR,
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llanbed**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540
a 4/5 Stryd y Bont, Llandysul

Llangybi a Betws

Ysgol Y Dderi

Croeso cynnes i'r plantos bach newydd sydd wedi ymuno â ni yn y dosbarth Meithrin. Maent wedi ymgartrefu'n rhwydd i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn mwynhau. Croeso cynnes hefyd i'n myfyrwyr o Goleg Y Drindod Dewi Sant a Choleg Ceredigion sef Miss Tracy a Miss Sasha. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

Llongyfarchiadau mawr i Miss Delun ac Andy ar enedigaeth eu merch fach, Leti-Grês. Mae Leti-Grês wedi ymweld â ni yn yr ysgol ac mae hi'n fabi bach cysurus iawn.



Eisteddfod yw thema blwyddyn 3 a 4 yn ystod yr hanner tymor yma a pha ffordd well o roi sbardun i'r thema na chael y Darpar Archdderwydd ei hun i mewn i'r ysgol i siarad â'r plant sef Myrddin ap Dafydd. Braint oedd cael bod yn ei gwmni ac roedd y plant wedi elwa'n fawr. Diolch yn fawr iawn iddo.



Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl-rwyd yr ysgol am lwyddo i ennill twrnament yr Urdd, Cylch Llanbed. Bydd y tîm yn cynrychioli Cylch Llanbed yn y rownd ranbarthol nesaf.

Diolch yn fawr i Stephen ac Alwyn am gynnal Prosiect Rhifedd Ceredigion Actif yn yr ysgol. Maen nhw wedi bod yn gweithio gyda disgyblion blwyddyn 1 a 2 i ddatblygu eu sgiliau corfforol a rhifedd.



Cafwyd perfformiad un-dyn gwfreiddiol o fywyd a gwaith Hari Tudur gan gwmni Mewn Cymeriad. Roedd y sioe yn llawn ffeithiau hanesyddol diddorol a digonedd o hiwmor a chomedi hefyd. Pa ffordd well i ddysgu am gyfnod y Tuduriaid. Hollol wych!

Bu rhai o ddisgyblion yr ysgol yn brysur yn peintio murlun gyda'r arlunydd Rhiannon Roberts. Bydd y murlun yn cael ei arddangos ar adeilad W D Lewis a'i Fab. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at weld y campwaith

yn cael ei arddangos. Diolch i Rhiannon, W D Lewis, Pwyllgor Gŵyl Dewi, Y Maer Ann Morgan, Cyngor Tref Llanbed, Prifysgol Y Drindod Dewi Sant, Cwmni LAS, Jewson, Clwb Cinio ac Evans Bros.

Dathlwyd Diwrnod Santes Dwynwen gyda gwasanaeth arbennig i gofio nawddsant cariadon Cymru. Bu clwb yr Urdd yn creu cardiau ac anrhegion arbennig hefyd.

Gwellhad buan

Dymunir gwellhad buan a llwyr i bawb a fu mewn ysbytai yn ddiweddar, mewn damweiniau neu yn sâl adref. Brysiwch wella i gyd.

Pen-blwydd

Pen-blwydd hapus i Sioned Evans, Godre'r Coed ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed. Gobeithio y cewch flynyddoedd o iechyd a hapusrwydd a phob llwyddiant i'r dyfodol.

Hamdden

Cyfarfu'r aelodau yng Nghegin Gareth i ddathlu'r Flwyddyn Newydd ac yno cawsom wledd fendigedig a phawb wedi mwynhau yn fawr.

Rhoddwyd pleidlais o ddiolch am y croeso a'r pryd rhagorol gan Sally Davies. Cyn dychwelyd adref cyfnewidiwyd anrhegion.

Merched y Wawr

Cyfarfu'r gangen ar Ionawr 16eg dan lywyddiaeth Deborah Jones. Dymunodd flwyddyn newydd dda i bawb a chroesawu'r gŵr gwadd sef y Bon. Lloyd Jones o Lanio. Cawsom noson fendigedig yn ei gwmni pan fu'n sôn am y gweithgareddau prysur a fu ym Mhont Llanio ar un adeg ond yn awr dim ond mieri a distawrwydd sydd yn amlwg ar y safle lle bu llawer o weithwyr yn ennill eu bywoliaeth. Diolchwyd iddo am noson mor gofiadwy a diddorol gan Ann Davies.

Rhoddwyd y raffl gan Gwyneth Jones ac fe'i henillwyd gan Rita Jones a Lloyd Jones. I ddiweddu'r noson cawsom y lluniaeth arferol wedi ei rhoddi gan Ann Davies a Mair Morgan. Bydd noson mis Chwefror yng ngofal y Fon. Ann Davies.



- Ydych chi'n hoffi darllen am iechyd, teithio, gwyliau, bwyd, materion cyfoes, merched difyr, ffasiwn, colur, y celfyddydau, a chlecs?
- Ydych chi am dderbyn copi o'r cylchgrawn llawn lliw a sglein, 64 tudalen, drwy'r post 3 gwaith y flwyddyn?

Wel, dyma'ch cyfle chi i danysgrifio!

- Gallwch lenwi'r ffurflen a'i hanfon drwy'r post i Bancyreithin, Llandre, Bow Street, Ceredigion, SY24 5BS, ynghyd â siec yn daladwy i Meinir ac Efa (Cara), neu gallwch dalu drwy PayPal gan ddilyn y linc sydd ar ein tudalennau Facebook ac Instagram, a'n gwefan www.cara.cymru. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth!

✂ _____

Enw a chyfeiriad: _____

Rhowch gylch i ddangos sawl rhifyn:
3 rhifyn: £12 (£4 y rhifyn) / 6 rhifyn: £24 / 9 rhifyn: £36 / 12 rhifyn: £48

MANYLION CERDYN CREDYD/DEBYD:

Rhif cerdyn: _____ Dyddiad cychwyn: __ / __

Dyddiad terfyn: __ / __ Cod diogelwch: _____

NEU GYFARWYDDYD DEBYD UNIONGYRCHOL:

Enw a chyfeiriad banc neu gymdeithas adeiladu:

Y Rheolwr, Banc _____

_____ Cod post: _____

Enw(au) deilia(i)d y cyfrif: _____

Cod dosbarthu: ____ - ____ - ____ Rhif cyfrif: ____ - ____ - ____

Llofnod: _____ Dyddiad: __ / __ / __



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl ffrindiau,

Wel mae 2019 wedi cyrraedd o'r diwedd ac nid yw'n rhy hwyr i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd! Sut ydych chi ers tro byd? Dydw i ddim wedi siarad â chi ers y llynedd!

Wel llongyfarchiadau mawr i bawb a wnaeth liwio llun Siôn Corn yn rhifyn mis Rhagfyr, mi fuodd y postmon a'r bostmones yn brysur iawn yn eu cario nhw i'r tŷ. Llongyfarchiadau i Elliw Grug Davies o Drefach a Sara Fflur Pugh o Ffair Rhos am luniau lliwgar a thacul iawn. Ond am liwio llun bendigedig ac yn ennill y mis hwn mae Elin Dafydd, Cwmann. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch chi, a chofiwch fod cyfle i chi gystadlu mis yma eto. Mae'n siŵr eich bod chi i gyd wedi croesawu 2019 mewn gwahanol ffyrdd - canu calennig efallai? Ond ym mis Chwefror mi fydd yna flwyddyn newydd arall yn dechrau sef y flwyddyn newydd Tsieineaidd. Eleni mi fydd y flwyddyn newydd Tsieineaidd yn digwydd ar yr 5ed o Chwefror a blwyddyn y mochyn fydd hi eleni. Ar hyd a lled Tsieina mi fydd yna ddathliadau mawr gyda phobl yn gwisgo gwisgoedd lliwgar tu hwnt. Mi wnes i ddysgu am hyn yn yr ysgol ac rydym am ddathlu'r diwrnod yn yr ysgol hefyd. Beth am fynd ati i liwio'r plant yn dathlu'r flwyddyn newydd Tsieineaidd a'i ddychwelyd i mi erbyn Chwefror 25ain.


Hwyl am y tro



Elin
Dafydd

Enillydd
y mis!

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC,
dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

☐ Ticiwch os ydych yn fodlon i enw'ch plentyn ac enw'ch pentref ymddangos ymhlith rhestr y cystadleuwyr yn y rhifyn nesaf.

Llofnod Rhiant/Ceidwad:

Pencarreg

Cwrdd Nadolig y Teulu Eglwys Sant Padrig, Pencarreg

Ddydd Sul 23ain o Ragfyr cafwyd cwrdd teulu eto yn yr eglwys. Roedd nifer dda wedi troi allan i ddathlu gŵyl y geni gan fwynhau gwasanaeth Nadoligaidd gyda'i gilydd. Diolch i Swyn Efa, Tirion Marged, Annie Victoria a Megan Grace am eu hunawdau ac i Siân Elin am ei darlleniad. Diolch i Ceinwen Evans am chwarae'r organ yn ôl ei harfer ac i'r mamau am baratoi te a danteithion i bawb. Siom oedd deall nad oedd ein Ficer, Will Strange yn medru bod yn bresennol oherwydd salwch ond edrychwn ymlaen at ei bresenoldeb wedi llwyr wellhad cyn hir. Anfonwn ato ein dymuniadau gorau. Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r eglwys fach ac edrychwn ymlaen at 2019 gyda hyder a ffydd. Blwyddyn newydd dda i chi i gyd.

Pentrebach

Wyrion newydd

O fewn diwrnodau i'w gilydd fe anwyd dau ŵyr bach newydd i Malcolm ac Ann Davies, Glanrafon. Ganwyd Ifan Dafydd i'w merch Laura a'i gwr Dafydd yn Llanfair Fach ac yna ganwyd Hedd Rhys i'w merch Hadi a'i phartner Bleddyn lawr ym Mhengallt, Maeslyn. Digon o waith nawr i Dadcu a Mamgu!! Llongyfarchiadau fil i chwi fel teulu.

Dyweddiö

Llongyfarchiadau i Eleri Twynog, Frondolau gynt a Paul ar achlysur eu dyweddiad yn ddiweddar. Iechyd da i chwi eich dau.

£17.50 yw pris Tanysgrifiad
Blwyddyn Papur Bro Clonc.
Beth am ei brynu fel anrheg?

Cysylltwch â Mary Davies,
ysgrifennyddes Clonc
ysgrifennydd@clonc.co.uk

Clwb Clonc

Chwefror

£25 rhif 152 :
Mrs Marina Evans, Aberaeron.
£20 rhif 422 :
Emyr Richards, Llambled.
£15 rhif 211 :
Angharad Morgan-Isaac,
Llambled.
£10 rhif 316 :
Mrs Irene Jones, Llambled.
£10 rhif 129 :
Rhys Douglas, Llambled.
£10 rhif 374 :
Mrs Gwyneth Morgan, Cwmann.
£5 rhif 17 :
Mrs Mary Davies, Llambled.

Rhifyn Mawrth
yn y Siopau
7 Mawrth
Erthyglau, Newyddion
a Luniau i law erbyn
25 Chwefror



Mwy na brocer yswiriant.
Mwy na yswiriant fferm.

Gweithio'n lleol? Byw'n lleol?
Yswirio'n lleol.

Gwasanaethau Yswiriant FFW
21 Stryd Fawr, Llanbed
Ceredigion, SA48 7BG
Swyddfa: 01570 422556

www.fuwinsurance.co.uk
Mae Gwasanaethau Yswiriant FFW Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoli gan y "Financial Conduct Authority". Rhif Cofrestru 615251.



Cyllid Amaethyddol, Adeiladu
& Busnes • Offer Amaethyddol
ac Adeiladu • Ceir a Cherbydau
Masnachol • Cyfleusterau
Amddiffiniad Offer Newydd a
Ddefnyddir

Rheolwr Ardal: Bedwyr Davies
07757 668339 / 01544 340562
bedwyr@pjfinancialsolutions.co.uk
www.pjfinancialsolutions.co.uk

Authorised and regulated by the
Financial Conduct Authority No FRN 690293

Eisteddfod Dihewyd



Yn Eisteddfod Dihewyd, enillwyd yr unawd 6-8 oed gan Anni Grug, Tregaron a'r llefaru dan 6 oed gan Elliw Grug, Drefach gyda Gwennan Lloyd Owen, Llanllwni yn fuddugol yn y llefaru 6-8 oed.



Malen Jenkins, Tregaron yn ennill yr ail wobwr ar yr unawd 8-10 oed ac ail ar y Cerdd Dant dan 12 oed yn Eisteddfod Dihewyd; Alwena Mair Owen,

Llanllwni yn ennill y wobwr gyntaf ar yr unawd 10-12, Cerdd Dant dan 12 oed a chanu emyn dan 12 oed; Fflur McConnell, Aberaeron yn gyntaf ar yr unawd a'r llefaru 8-10 oed ac yn gyntaf ar yr alaw werin dan 12 oed; Lea Mererid, Pwllheli yn ennill y cwpan am lefaru 10-12 oed a'r wobwr gyntaf am ganu'r piano a hefyd offeryn cerdd (heblaw'r piano) oedran ysgol gynradd.

Sioned Howells, Llanllwni wedyn enillodd y wobwr gyntaf ar y Llefaru dan 25 oed, unawd allan o sioe gerdd a Chanu Emyn 18-50 oed.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambod, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breccs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305



LHP

- CYFRIFWYR
- ARCHWILWYR
- YMGYNGHORWYR



CYFRIFWYR
SIARTEDIG
ICAEW

81 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AB

CYFRi

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.

LAS Recycling Ltd

GWASANAETH CASGLU GWASTRAFF MASNACHOL

Am wasanaeth effeithiol a
fforddiadwy i'ch holl anghenion
gwastraff ffoniwch:

01570 421 421

Rydym yn darparu
biniau maint:
240 / 660 a 1100 Litr



LAS RECYCLING LTD
HEOL TREGARON, LLANBEDR PONT STEFFAN,
CEREDIGION. SA48 8LT

Haelioni C.Ff.I. Llanllwni



Noson cyflwyno sicciau C.Ff.I. Llanllwni lle cafodd 4 sic eu trosglwyddo i wahanol elusennau. Cafodd arian y Sioe Flynyddol ei rannu rhwng Epilepsy Action ac Uned Gofal Cancr y Fron, Ysbyty'r Tywysog Phillip a derbyniodd y ddwy elusen sic o £1561.14 yr un. Trosglwyddwyd £1,421.11 i elusen Paul Sartori o ganlyniad i'r canu carolau a chafodd £200 ei roi i Hospis Skanda Vale. Adroddiad llawn ar dudalennau 16 a 17.

Artistiaid Ifanc Murlun Newydd Llanbed



Ysgol y Dderi



Ysgol Bro Pedr



Ysgol Bro Pedr



Ysgol Carreg Hirfaen



Ysgol Dyffryn Cledlyn